cwlwm



# Adroddiad Prosiect Grant

2022-2023

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

NDNA
National Day Nurseries Association
"Brighter thinking for early years"

pacey | CYMRU

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# CYNNWYS:


1. Cefndir 3

2. Cyflwyniad 5

3. Amcanion, Targedau a Chyflawniadau Cwlwm 6


## MANYLION Y PROSIECT:

**Enw'r Sefydliad Arweiniol:**

Mudiad Meithrin (MM)

Manylion Cyswllt y Sefydliad Arweiniol:

Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

**Enwau'r Partneriaid:**

- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Mudiad Meithrin (MM)
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)
- Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru)

**Teitl y Prosiect:**

CWLWM: Childcare in Wales Learning and Working Mutually

Cyfnod Adrodd:

**1.4.2022 – 31.3.2023**

**Swm y Grant a Dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod 1.4.2022 - 31.3.2023:**

£1,890,000 – am 12 mis

£903,000 – cyllid ychwanegol

£1,000,000 – cyllid ychwanegol

# 1. Cefndir

Mae Cwlwm yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae Cwlwm, prosiect a arweinir gan Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, NDNA Cymru, PACEY Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru yn tynnu ynghyd y gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, i fynd i'r afael â materion yn y sector Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Mae'r materion hyn yn cynnwys: ymhlith pethau eraill, cynaliadwyedd, datblygu'r gweithlu a bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig yng nghyswllt gofal plant/chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Trwy gydweithio, rydym yn llwyddo i ganfod atebion arloesol i gyfleoedd chwarae a gofal plant hyblyg a gofal cofleidiol, er mwyn diwallu anghenion rhieni a theuluoedd ym mhob rhan o Gymru.

Mae Cwlwm yn cynnig dull amlasiantaeth integredig a dwyieithog o ddatblygu, cefnogi, cynghori a hyfforddi. Mae'r dull cydlynus a strategol hwn o weithredu yn sicrhau y ceir cysondeb o ran ansawdd ac arbedion effeithlonrwydd o ran darparu cymorth ac arweiniad ac mae'n cyflwyno atebion arloesol i ddiwallu anghenion lleol.



**Mae Cwlwm:**

- yn gweithio ar **lefel Cymru gyfan** i gynnig cymorth (gan gynnwys cymorth busnes), arweiniad a chyngor i leoliadau gofal plant a gwaith chwarae, gyda'r nod o gynnal darpariaeth.
- yn archwilio anghenion **datblygu'r gweithlu** gofal plant a gwaith chwarae ac yn gweithio ar y cyd i ddarparu cyfleoedd i ddiwallu anghenion y gweithlu hwnnw o ran hyfforddiant.
- yn **adnabod bylchau** yn y ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae ar draws Cymru ac yn dod i hyd i atebion i'r bylchau hynny, gan gynnwys atebion arloesol yng nghyswllt y ddarpariaeth mewn **ardaloedd gwledig**, **tlodi** a'r **Gymraeg**.
- yn cydweithio i ddod o hyd i'r atebion gorau posibl ar gyfer **gofal plant hyblyg** mewn ardal benodol.
- yn adolygu heriau ac yn dod i hyd i **atebion** i'r heriau hynny drwy gydweithio.
- yn **cynrychioli'r** sector gofal plant ar bwyllgorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gofal plant a chwarae.
- yn sicrhau **ansawdd cyson ac arbedion effeithlonrwydd** yng nghyswllt cymorth, arweiniad ac atebion i heriau trwy gyfarfodydd partneriaeth reolaidd.
- yn cydweithio i **chwilio am gyllid** i wella'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector gofal plant a gwaith chwarae.
- yn **cydweithio** ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd i sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn elwa o'r ffaith bod modd iddynt gael gofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd da.

# 2. Cyflwyniad

Ers sefydlu'r bartneriaeth yn 2014, mae Cwlwm wedi creu a datblygu perthynas gweithiol er mwyn cyflawni amcanion dros blant a theuluoedd yng Nghymru.  Mae gwaith partneriaeth Cwlwm yn strategol ei natur, yn ychwanegu gwerth wrth wireddu targedau gweithredol, gan ddefnyddio nawdd o wahanol ffynonellau (gan Lywodraeth Cymru, ac eraill).

Mae Cwlwm yn parhau i weithio'n strategol ac yn rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau, a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i:

1. cynyddu argaeledd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig sydd o ansawdd uchel, sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac yn hyblyg.
2. parhau i gynyddu safon y ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae.
3. denu rhagor o bobl i'r sector a chefnogi datblygiad gweithlu medrus ac amrywiol.
4. sicrhau bod lleoliadau'n dod yn fwy cynaliadwy, o safbwynt ariannol.
5. parhau i fewnosod yr iaith Gymraeg mewn lleoliadau, yn unol â'r Cwricwlwm newydd, Cymraeg 2050, a'r CSGA.
6. cefnogi darpariaeth y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru a gweithredu egwyddorion gwrth-hiliol o fewn lleoliadau ac ymarfer.

Yn ystod 2022-2023, canolbwyntiodd a chyflawnodd Cwlwm ar yr amcanion eang canlynol (i gefnogi aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau sy'n gysylltiedig â sefydliadau partneriaeth Cwlwm) yn unol â'r dull 'system-gyfan' i gefnogi'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae yng Nghymru:



- **Amcan 1:** Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i gynyddu argaeledd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig, o ansawdd uchel, sy'n hygyrch, fforddiadwy a hyblyg
- **Amcan 2:** Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i barhau i gynyddu safon y ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae
- **Amcan 3:** Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae a chefnogi datblygiad gweithlu medrus ac amrywiol
- **Amcan 4:** Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i sicrhau bod lleoliadau'n dod yn fwy cynaliadwy, o safbwynt ariannol
- **Amcan 5:** Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i barhau i ddarparu'r iaith Gymraeg o fewn lleoliadau, yn unol â'r Cwricwlwm newydd, Cymraeg 2050, a'r CSG.

- **Amcan 6:** Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i gefnogi darpariaeth y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru a gweithredu egwyddorion gwrth-hiliol o fewn lleoliadau ac ymarfer



Fel nodwyd yn flaenorol, defnyddiwyd 'dull sector-gyfan' i gyrraedd y gynulleidfa darged o weithwyr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, a oedd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda:

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau Lleol
- AWARE
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Busnes Cymru
- Gofalwn Gymru
- Darparwyr a rhanddeiliaid o fudiadau unigol
- Partneriaid eraill

Fel tystiolaeth i gefnogi'r dyfarniad cyllid mewn perthynas â Chonsortiwm Gofal Plant Cwlwm, darparodd bartneriaid adroddiadau monitro naratif chwarterol i Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol i gefnogi'r meysydd gwaith a gyflawnwyd gan Cwlwm.

**Roedd yr Adroddiad Monitro yn cynnwys pedair rhan:**

1. Gwybodaeth fonitro ar gyflawniad gwaith unigol y 5 mudiad yn ymwneud â thargedau a gwaith Cwlwm yn unig;
2. Gwybodaeth fonitro ar waith strategol partneriaid Cwlwm ar y cyd e.e. gwaith yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru;
3. Gwybodaeth am waith dyddiol partneriaid Cwlwm;
4. Gwybodaeth ar waith a gyflawnir gan bartneriaid Cwlwm, sy'n cael ei gyllido gan ffynonellau eraill e.e. grantiau sirol, cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, h.y. Swyddog Datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Roedd yr wybodaeth yma yn dangos y gwaith ychwanegol a gyflawnwyd tu hwnt i gyllid Cwlwm gan esbonio'n glir i gyllidwyr eraill sut roedd eu cyfraniadau ariannol nhw yn cyfrannu at a chyfoethogi gwaith y sector.

# 3. Amcanion, Targedau a Chyflawniadau Cwlwm

## Amcan 1:

### Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i gynyddu argaeledd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig, o ansawdd uchel, sy'n hygyrch, fforddiadwy a hyblyg.

| Gweithred | Effaith/Allbwn | Tystiolaeth sector |
|---|---|---|
| = Dyma beth mae Cwlwm wedi ei wneud | = Dyma beth sydd wedi digwydd oherwydd gweithred Cwlwm | = Darparu enghraifft(au) (neu ystadegau) i ddangos camau gweithredu ac effaith/allbwn |

| Rhif y Deiliant | | Deilliannau 2022-2023 |
|---|---|---|
| **1.01** | | **Cynnydd yng nghapasiti  a chynnydd yn y nifer o lefydd mae gofalwyr plant a gwasanaethau chwarae cofrestredig yn eu cynnig, gan gynnwys y rhai sydd ar safle ysgol.** |
| **Gweithred** | **1** | Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i fynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr gofal plant yr Awdurdodau Lleol (A Ll) i gefnogi datblygiad darpariaethau newydd ac ehangiad gwasanaethau presennol yn unol â strategaethau'r A Ll, h.y. CSAG, ADGP, ehangiad darpariaeth Dechrau'n Deg, ac ati. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn gyfle i bartneriaid Cwlwm lleisio'u pryderon ynghylch y ffyrdd orau i weithio ar y cyd i gefnogi sector bregus, e.e. mae PACEY Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i gael gwared ar rwystrau cynllunio lleol i'r sawl sy'n edrych i ddod yn ofalwyr plant, gan gynnwys caniatâd cynllunio'r ALl a Chymdeithasau Tai. |
| | **2** | Mae'r partneriaid yn gweithio'n agos gyda lleoliadau ac ysgolion i sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn derbyn gofal plant cofleidiol a chyfleoedd chwarae ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae partneriaid wedi cynhyrchu adnoddau megis taflenni gwybodaeth 'Pam Dewis Gofal Plant Cofrestredig?', a gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC) cynhyrchu Fideos Hyrwyddo - Clybiau Plant Cymru (CY) wedi'i anelu at rieni ar fanteision Clybiau Allysgol sy'n gofrestredig ag AGC. |
| | **3** | Mae partneriaid Cwlwm yn hyrwyddo Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 Llywodraeth Cymru (Ll C) lle'n bosib. Cyflawnir hyn drwy gyfuniad o'r cyfryngau cymdeithasol, cynnwys ar wefannau a gwaith partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol. |
| | **4** | Mae partneriaid Cwlwm yn darparu cefnogaeth busnes, hyfforddiant ac arweiniad gyda chofrestriad AGC. |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Wrth fynychu cyfarfodydd amrywiol cafodd partneriaid Cwlwm y cyfle i amlygu problemau a heriau penodol a wyneba'r sector, gyda'r nod o'u lliniaru. Fodd bynnag, mae partneriaid Cwlwm yn ymwybodol fod y problemau, er enghraifft, y rhai ag amlygwyd gan PACEY Cymru o amgylch y lleihad yn nifer y gofalwyr plant, yn rhai na allai eu datrys yn gyflym, a bydd angen rhagor o waith yn ystod 2023-24. |
| | **2** | Bydd hyrwyddo gofal plant cofrestredig ymhlith rhieni/gofalwyr, darpariaeth gofal plant, a gofal plant ar safle'r ysgol, yn gymorth i bawb ddeall pwysigrwydd, buddion a gwerth gofal plant. Mae codi ymwybyddiaeth o ofal plant cofrestredig yn sicrhau amgylchedd diogel, ysgogol, o safon i blant, sy'n darparu sylfaen i blant gyflawni eu llawn botensial. |
| | **3** | Bydd hyrwyddo'r cynllun cymeradwyo gwirfoddol yn galluogi nanis cymeradwy i brofi i ddarpar gyflogwyr yng Nghymru eu bod nhw wedi cwrdd â meini prawf y cynllun, a hefyd galluogi cyflogwyr i gael mynediad at gefnogaeth ariannol os ydynt yn gymwys i wneud felly; a dylai hynny wneud nanis yn fwy cyflogadwy.<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 22 roedd 53 yn rhan o'r cynllun; erbyn diwedd Mawrth 2023 roedd hyn wedi codi i 59, sef cynnydd o 10%. |
| | **4** | Mae darparu cefnogaeth busnes a hyfforddiant cynhwysfawr yn sicrhau fod y sector mewn sefyllfa gref a sefydlog ac yn medru cwrdd ag unrhyw ofynion am gynnydd mewn capasiti. Mae partneriaid Cwlwm yn ymroddedig i gynorthwyo lleoliadau i gofrestru ag AGC a darparu arweiniad a'r gefnogaeth sydd ei angen i sicrhau llwyddiant. Cynigir ystod o wasanaethau cefnogaeth i ddarparwyr, o'r broses cofrestru gychwynnol i gefnogaeth barhaus a chyngor i sicrhau eu llwyddiant parhaus. Yn ystod 2022-2023 bu'r lleoliadau canlynol yn llwyddiannus wrth ennill cofrestriad AGC:<br>• CPCKC - 11 lleoliad/21 clwb/749 o lefydd<br>• BCC - 16 lleoliad (11 Gofal Dydd Llawn, 2 gofal sesiynol, 2 gofalwr plant, 1 gofal plant all ysgol)<br>• MM - 9 lleoliad<br>• NDNA Cymru - 2 lleoliad<br>• PACEY Cymru - 47 gofalwr plant /373 o lefydd |



| | | |
|---|---|---|
| **Tystiolaeth Sector** | **1-4** | Mae gwendid a'r heriau a wyneba'r sector gofal plant a gwaith chwarae yn parhau'n destun pryder i bartneriaid Cwlwm, yn enwedig yn sgil y pandemig. Dyma enghreifftiau o bryderon ar gyfer 2022-2023:<br>• mae recriwtio a chadw staff yn parhau'n broblem gyson. Er rhoddwyd sylw i ofal plant NEWS: PACEY Cymru features on BBC Wales Live/PACEY Cymru yn ymddangos ar BBC Cymru Fyw \| PACEY caiff y berthynas rhwng lleoliadau gofal plant a recriwtio/cadw staff ei anwybyddu'n aml. Amlygodd arolwg NDNA y ffaith fod y sector yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff. Mae'r canran o'r rhai a ofynnwyd sydd wedi profi trafferthion wrth recriwtio fel y ganlyn:<br>  • Lefel 3- 93%<br>  • Lefel 2 - 52%<br>  • Prentisiaid - 17%<br>  • Siaradwyr Cymraeg - 45%<br>  • Staff digymhwyster - 3%<br>• Cynhaliwyd astudiaeth gan Arad Research a chomisiynwyd gan Blynyddoedd Cynnar Cymru a chanfu bod y cyflog isel yn cael effaith sylweddol ar recriwtio staff, gyda thystiolaeth fod darparwyr gofal plant yn gadael y sector i weithio i archfarchnadoedd sy'n cynnig cyflogau uwch.<br>• mae'r gostyngiad yn niferoedd y gofalwyr plant yng Nghymru yn achos pryder. Yn 22-23 bu gostyngiad o 3%, yn seiliedig ar y ffigyrau a rhennir gyda PACEY Cymru gan AGC. Mae hyn yn ychwanegiad at ostyngiad y blynyddoedd blaenorol.<br>• er ei bod yn galonogol i weld bod 17 o glybiau newydd wedi agor gyda chefnogaeth CPCKC a nawdd A Ll/nawdd arall, a bod 10 ymholiad arall wedi ei derbyn, dengys Arolwg Clwb Cenedlaethol CPCKC dros y 12 mis nesaf bod 8% o glybiau allysgol yn meddwl mai'n bosib y bydd yn rhaid iddynt gau, a bod 9% yn poeni bydd rhaid diddymu elfennau o'u gwasanaethau, a bod 12% yn rhagweld cyfyngu ar yr amser maent ar agor. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y ddogfen hon: Arolwg Cenedlaethol Rhieni 2022<br><br>Mae'r heriau hynny'n parhau'n broblem wrth i'r sector geisio'i orau i gynyddu'r nifer o wasanaethau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig sydd ar gael, gan gynnwys y rhai ar safleoedd ysgol. Awgryma profiad fod y nifer o wasanaethau gofal plant a gwaith chwarae (cofrestredig ac fel arall) wedi aros yn wastad, gyda phartneriaid Cwlwm yn cefnogi AGC yn ei ymgais i sicrhau fod y lleoliadau sydd ar gau neu wedi ei 'gwahardd' yn cymryd camau pendant. Awgrymodd parterniaid Cwlwm gall y llwyfandir hwn gael ei achosi gan gynydd yn y lleoliadau gofal dydd llawn, sy'n cuddio'r gostyngiad mewn meysydd arall. |
| | | Gweler hefyd 2.04, 2.05, 2.06, 3.01, 3.02, 3.04 am enghreifftiau o effaith / deilliannau Cwlwm sy'n mynd i'r afael â'r pryderon fel y'i hamlinellwyd yn Tystiolaeth Sector 1.01. |

| 1.02 | | Cynnydd yng nghapasiti a/neu'r nifer o lefydd o fewn darpariaethau cyfrwng Cymraeg. Annog darpariaethau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg sydd heb gofrestru i gofrestru, ac annog darpariaethau dwyieithog i symud tuag at statws cyfrwng Cymraeg fel iaith maent yn gweithredu ynddi. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | O ganlyniad i'r nawdd ychwanegol a dderbyniwyd gan LIC i ehangu ar weithgarwch cyfrwng Cymraeg, mae partneriaid Cwlwm wedi cyflwyno cyfres o fesurau i sicrhau bod rhagor o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg yn bodoli o fewn y sector. Er enghraifft, mae Mudiad Meithrin (MM) yn parhau i agor Cylchoedd Meithrin newydd o dan eu cynllun 'Sefydlu a Symud' (SaS) ac mae ganddynt swyddogion dynodedig i gefnogi'r pwyllgorau rheoli newydd gyda rheoliadau AGC. Cofrestrir yr holl leoliadau newydd o fewn y tair mis cyntaf. Enghraifft arall o'r gwaith a wnaed mewn perthnasedd i leoliadau anghofrestredig yw gwaith CPCKC, sy'n cynnwys creu adnoddau, cynnig cyngor ac arweiniad. Cysylltodd CPCKC â 64 lleoliad anghofrestredig cyfrwng Cymraeg, i hyrwyddo'r prosiect CyMell, a ymgysylltodd swyddogion datblygu iaith Gymraeg (CBDO) â nhw, i'w annog i gofrestru. Bu pwyslais penodol ar estyn allan i'r Mentrau Iaith a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg. Wnaeth yr awyrgylch a grëwyd gan y pwyslais ar gofrestriad arwain at un ysgol yn gofyn i Gylch Meithrin rhedeg clwb brecwast er mwyn sicrhau cofrestriad.<br><br>Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i weithio ar y cyd i ehangu gwasanaethau presennol drwy ddarparu cefnogaeth wedi ei deilwra at gefnogi lleoliadau i ddod yn rhai cyfrwng Cymraeg. |
| | **2** | Cyniga partneriaid Cwlwm arweiniad a chyngor i ddarparwyr sy'n ystyried trawsnewid i fod yn ddarparwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â darparu cefnogaeth i'r darpariaethau hynny sydd am gofrestru darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg anghofrestredig. Darparwyd cefnogaeth trwy'r dulliau canlynol:<br><br>• datblygu polisïau a gweithdrefnau<br>• cofrestru staff ar gyrsiau/cynlluniau amrywiol megis Camau, Croesi'r Bont, CYMell, Camfa,<br>• cofrestru darpariaethau i ddilyn yr 'Addewid Cymraeg' fel eu bod yn medru dangos sut maent yn gweithio tuag at y Cynnig Gweithredol.<br>• cynnig gwasanaeth cyfieithu<br>• nawdd grant, e.e. Mae CYmell gan CPCKC yn cefnogi darpariaethau cyfrwng Cymraeg anghofrestredig i gofrestru ag AGC ac yn cefnogi darpariaethau sy'n newid eu hiaith weithredol.<br>• cynlluniau hyfforddi sy'n darparu cymwysterau Gwaith Chwarae, gan gefnogi darpariaethau i gwrdd â'r gofynion lleiafswm ar gyfer cofrestriad AGC<br><br>Yn ystod 2022-2023:<br><br>• dechreuodd 2 grŵp chwarae ar eu taith i drawsnewid i statws cyfrwng Cymraeg drwy gynllun Plethu MM a BCC<br>• derbyniodd 6 meithrinfa dydd gefnogaeth drwy gynllun Camfa MM<br>• cefnogwyd 13 lleoliad gyda'r Addewid Cymraeg (NDNA Cymru)<br>• cofrestrodd 25 dysgwr ar CYMell (cynllun CPCKC)<br>• arwyddodd 23 lleoliadau gofal plant allysgol i'r Addewid Cymraeg (CPCKC) |

| | | |
|---|---|---|
| | **3** | I sicrhau caiff y Gymraeg ei chefnogi a'i chynnal, mae partneriaid Cwlwm yn parhau i hyrwyddo manteision yr iaith fel iaith weithredol o fewn y sector, ac yn parhau i annog darpariaethau i ddod yn rhai cofrestredig. Ysgrifennwyd erthygl ar gyfer Dysg ar bwysigrwydd gofal plant cofrestredig cyfrwng Cymraeg, er mwyn annog darpariaethau anghofrestredig ar safle ysgolion i gofrestru gydag AGC. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1-3** | Mae gallu pawb o fewn y sector i ddysgu'r Gymraeg yn amrywio, ac mae dysgu'r iaith yn daith sy'n cymryd sawl blwyddyn. Fodd bynnag, gyda'r gefnogaeth, anogaeth, hyrwyddo ac adnoddau a ddarparwyd yn parhau gan bartneriaid Cwlwm, rydym yn gobeithio gweld cynnydd yn y capasiti a'r nifer o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg cofrestredig, wrth iddyn nhw deimlo'n fwyfwy hyderus i gyflwyno'r iaith o fewn eu darpariaethau. Trwy hefyd annog darpariaethau dwyieithog i symud tuag at ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel yr iaith weithredol, rydym yn credu bydd hyn yn cryfhau'r iaith ymhellach. |
| | | Mae parhau i hyrwyddo manteision cofrestru yn ffactor allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o fewn y sector. Drwy hyrwyddo'r manteision hynny byddem yn annog rhagor o ddarpariaethau i gofrestru, e.e. bydd yr erthygl yn Dysg yn codi ymwybyddiaeth ysgolion o fanteision cofrestru ag AGC. Bydd Rheolwr Perthynas Cwsmer newydd CPCKC yn ei galluogi i adnabod yn gywir clybiau anghofrestredig a'u targedu drwy negeseuon a chefnogaeth. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1-3** | Dengys y dystiolaeth fod darpariaethau ar draws sefydliadau partneriaid Cwlwm yn profi trafferth wrth recriwtio staff gymwys sydd hefyd yn siarad Cymraeg (Gweler arolwg NDNA o dan 1.01). Mae hyn yn parhau yn bryder a thestun trafodaeth rhwng partneriaid a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys LIC. Mae partneriaid Cwlwm yn ceisio mynd i'r afael â'r her hwn drwy weithio gyda'i gilydd i adnabod darpariaeth ddwyieithog sydd â'r potensial i ddarparu gwasanaeth drwy'r Gymraeg gan ddefnyddio staff presennol, ac i ehangu darpariaeth drwy'r Gymraeg i gymunedau.<br><br>Yn ystod Blwyddyn 5 o brosiect SaS Mudiad Meithrin, cafodd 16 Cylch Meithrin eu hadnabod i'w agor neu eu datblygu ar draws Cymru. Agorodd un o'r rhain yn ystod y cyfnod, sef Traed Bech Twymyn ym Mhowys. Yn ogystal, agorodd 5 Cylch Meithrin pellach o Flwyddyn 4 y prosiect, sef: Cylch Meithrin Teulu'r Tyle, Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton, Cylch Meithrin Y Gurnos, Cylch Meithrin Y Garth, a Highgate Uplands (gan weithio efo'r feithrinfa i ddarparu sesiynau trochi'r Gymraeg drwy Croesi'r Bont). Cefnogwyd bob un o'r 16 Cylch Meithrin gyda'u datblygiad, gan gynnwys recriwtio, anwytho'r pwyllgor a chofrestriad AGC.<br><br>Cafodd grŵp chwarae Llanfairfechan ei adnabod fel darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bwydodd hynny i CSGA Sir Gonwy, lle'r oedd ysgol leol wedi ei hadnabod fel un fyddai'n addas i'w symud ar hyd y continwwm iaith. Mae gwaith yn mynd rhagddi i symud y lleoliad o fod yn un Saesneg i un Gymraeg ei iaith. Rydym wedi gweithio'n galed i gael cefnogaeth yr ALl gyda'r broses. Mae'r staff yn barod i weithio ar y broses o drosglwyddo'r ddarpariaeth o weithredu mewn un iaith i'r llall, a sicrhau bod y polisïau a gweithdrefnau un cyd-fynd â rhai lleoliadau Mudiad Meithrin. Bydd cynorthwyo Llanfairfechan i ddod yn lleoliad cyfrwng Cymraeg yn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant y blynyddoedd cynnar. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn dilyn cefnogaeth gan MM, NDNA Cymru a CPCKC, agorodd meithrinfa ddydd Wibili Wobli, sydd hefyd yn cynnig gofal all ysgol. Dyma'r feithrinfa cyfrwng Cymraeg gyntaf yng Nghasnewydd. |
| | | Bydd SASS AGC yn darparu partneriaid Cwlwm efo data cyfredol am iaith weithredu (er bod yna bryderon na fydd ddarpariaethau o reidrwydd yn deall 'Y Cynnig Gweithredol' a beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw.) Diolch i arweiniad CPCKC mae partneriaid yn ymwneud â'r Addewid Cymraeg sy'n ardystiedig gan Gomisiynydd y Gymraeg, fydd yn caniatáu lleoliadau i ddatblygu ei defnydd o'r Gymraeg a chreu amgylchedd lle mae'r iaith yn rhan naturiol o gynnig y ddarpariaeth i blant. |
| **1.03** | | **Cynnydd yn y nifer o leoliadau cofrestredig sy'n cynnig darpariaeth a ariannir i blant 2 oed.** |
| **Gweithred** | **1** | Yn ystod y flwyddyn mae partneriaid Cwlwm wedi:<br>• hyrwyddo ehangiad y cynnig gofal plant i blant 2 oed, a chynnig cyngor ac arweiniad i'r sector er mwyn paratoi<br>• gweithio gyda'r ALl i adnabod darpariaethau a chyfleoedd, ac i sicrhau bod darpariaethau'n barod i ehangu gofal plant a ariannir i blant 2 oed<br>• nodi pryderon yn ymwneud yn benodol â gofalwyr plant gyda PACEY Cymru a LIC<br>• gweithio gyda LIC i roi adborth ar atodiad gofal plant DD i gefnogi dull cyson sy'n chwalu rhwystrau mewn sawl ardal<br>• hyrwyddo pwysigrwydd cofrestru ag AGC drwy gylchlythyron partneriaid a'r pamffled Dewis Gofal Plant |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Rhannwyd y meini prawf angenrheidiol i ddarparu llefydd a ariannir gyda'r darpariaethau, a chyniodd partneriaid Cwlwm gefnogaeth gydag ehangu gwasanaethau a'r broses tendro, lle'n berthnasol. Wnaeth y gefnogaeth a'r arweiniad a darparwyd gan bartneriaid Cwlwm sicrhau bod y darpariaethau yn ymwybodol o'r ehangiad a'r gwaith paratoi oedd ei angen i gynnig darpariaeth a ariannir i blant 2 oed. |
| | | Trwy weithio gyda'r ALl mae partneriaid Cwlwm wedi adnabod yr ardaloedd lle caiff yr ehangiad Dechrau'n Deg ei ddatblygu mewn cymalau. Drwy sgyrsiau gyda'r ALl mae partneriaid Cwlwm wedi adnabod y darpariaethau lleol sy'n medru cymryd rhan yn y cynllun, neu'r ardaloedd lle mae angen datblygu darpariaethau newydd. |
| | | Bu PACEY Cymru yn cwrdd â rhai ALl ar draws Cymru i sicrhau bod darpariaeth gofalwyr plant yn derbyn ystyriaeth mewn perthnasedd a'r ehangiad gofal plant i blant 2 oed. Bydd hyn yn cefnogi anghenion plant, dewis rhieni a chynaladwyedd darparwyr. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r arweiniad ddrafft, y gweithdrefnau a phrosesau ar lefel lleol, ac addysgu unigolion ynghylch rôl y gofalwr plant. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r atodiad gofal plant DD yn gliriach mewn perthnasedd â gofynion o ran cymwysterau a'r rôl gall yr holl ddarparwyr gael wrth ei ddarparu (gan gynnwys gofalwyr plant) i gefnogi dull mwy cyson ar draws Cymru. Yn benodol, wnaeth hyn gynnwys gwaith yn gysylltiedig â geiriad a dull a wnaed gan PACEY Cymru mewn partneriaeth â LIC a Gofal Cymdeithasol Cymru i fod yn fwy eglur am gymwysterau gofalwyr plant sy'n gweithio'n unigol a'r rhai sy'n gweithio gyda chynorthwywyr. Bu PACEY Cymru hefyd yn gweithio gyda LIC a Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau y lansiwyd yr arweiniad a'r cymwysterau ar yr un pryd i sicrhau dull cyson ac i leihau dryswch. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Araf bu'r cynnydd o ystyried y dull graddol wrth ehangu darpariaeth DD. Mae partneriaid Cwlwm yn cefnogi lleoliadau i gynnig darpariaeth i blant 2 oed drwy ymateb i arweiniad, darparu anogaeth ddirfodol, ceisio cael gwared ar unrhyw bryderon sydd gan leoliadau, e.e. "rydyn ni'n iawn fel yr ydym", "rydyn ni'n llawn fel y mae", "fedrwn ni ddim canfod staff" neu "does gennym ni ddim mo'r lle". Dengys tystiolaeth nad yw nifer o'r darpariaethau'n ffrwd dros gynnal y cynllun DD i ariannu plant 2 oed am fod yn well ganddyn nhw ganolbwyntio eu hamser a'u hadnoddau ar eu gwasanaethau presennol. Mae darpariaethau eraill yn pryderu y bydd cynnydd yn y nifer o lefydd i blant 2 oed yn effeithio'r nifer o lefydd i blant 3 oed. Nid yw Cylchoedd Meithrin, er enghraifft, wedi gweld cynnydd sylweddol yn narpariaeth i blant 2 oed, gan fod nifer eisoes yn cynnig y cynllun DD o fewn eu dalgylch, ac o ganlyniad mae nifer o'r plant eisoes yn cael eu hariannu'n llawn. Hefyd, mae yna broblem barhaus i sicrhau bod y cyfleoedd ar gyfer darpariaeth a ariannir ar agor i'r holl ddarparwyr cofrestredig perthnasol. Mae penderfyniadau'r ALL yn dal i gael effaith ar gyfleoedd, sydd yn ei dro yn effeithio cynaladwyedd ddarparwyr proffesiynol. Mae PACEY Cymru wedi rhannu'r rhwystrau hyn a sut maen nhw'n effeithio'n benodol ar ofalwyr plant gyda LIC. |
| | | Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i weithio'n agos gyda nifer o'r ALI wrth adolygu'r dull y ariannir lleoliadau. Mae nifer o ddatblygiadau cadarnhaol wedi bod o fewn sawl ALI mewn perthnasedd â chefnogi cynaliadwyedd ddarparwyr presennol, yn enwedig mewn perthnasedd a lleoliadau gofal plant na ddefnyddiwyd yn flaenorol. Cyflawnwyd hyn drwy ymestyn cyfleoedd i ddarparu darpariaeth a ariannir a gweithio i ddiddymu'r agweddau sy'n rhwystro darpariaethau rhag cael mynediad at nawdd. Gweithiodd PACEY yn agos â Thorfaen i adolygu dogfennau arweiniad i sicrhau eu bod yn addas i ofalwyr plant. Yng Nghaerdydd, gweithiodd PACEY Cymru yn galed i gefnogi'r ALI i weithredu dull mwy cynhwysol i'r lleoliadau maen yn eu cefnogi ac agor cyfleoedd i ofalwyr plant. Rydym yn obeithiol cawn weld effaith y rhain wrth symud ymlaen. |

| | | |
|---|---|---|
| **1.04** | | **Cynnydd yn y nifer o blant sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn hawlio'r Cynnig Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg.** |
| **Gweithred** | **1** | Mae Mudiad Meithrin yn parhau i agor Cylchoedd Meithrin newydd o dan y cynllun SaS a holl bartneriaid Cwlwm i gefnogi lleoliadau i ehangu i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag annog darpariaethau i gofrestru am y Cynnig Gofal Plant fel eu bod nhw'n gystadleuol ac yn sicrhau'r gefnogaeth gorau posib i deuluoedd. Mae pob agwedd o waith MM yn ymwneud â hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg. |
| | | Gweler 1.02 |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Trwy fuddsoddi mewn lleoliadau dynodedig Cymraeg a chefnogi lleoliadau i ehangu i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd hyn yn darparu rhagor o gyfleodd i deuluoedd gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd annog lleoliadau i fabwysiadu'r Cynnig Gofal Plant (CGP) yn sicrhau eu bod nhw'n gystadleuol a bod gan deuluoedd fynediad at ofal plant fforddiadwy. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Dengys tueddiadau bod rhagor o rieni yn gwneud defnydd o'r CGP wrth i'r nifer o blant 3 oed a'r rhai sy'n gymwys am addysg feithrin gynyddu'n sylweddol ym mis Ionawr 2023. Fodd bynnag, teimla partneriaid Cwlwm y gellir gwneud mwy i gefnogi darpariaethau, a bod y gyfradd £5 yr awr yn annigonol oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae'r codiad ym mhris ynni a bwyd, yn ogystal â'r codiad yn y cyflog lleiafswm, wedi rhoi straen ar gyllidebau a rhagolygon ariannol darpariaethau. Mae'r partneriaid yn parhau i adnabod darpariaethau sy'n bryderus iawn ynghylch eu sefyllfa ariannol a'u cynaladwyedd. Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i drafod gyda LlC yr angen i gynyddu cyfradd y CGP er mwyn cefnogi darpariaethau. |
| **1.05** | | **Cynnydd yng ngallu darpariaethau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig i gwrdd ag anghenion gofal plant rhieni a gofalwyr, a llai o fylchau yn narpariaeth leol a chenedlaethol.** |
| **Gweithred** | **1** | Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i weithio gyda'r ALl i hyrwyddo a recriwtio gofal plant cofrestredig. Maent hefyd yn mynychu cyfarfodydd CSGA a gweithio'n agos gyda'r ALl i adnabod dalgylchoedd lle gellir datblygu darpariaethau newydd neu ehangu gwasanaethau darpariaethau i gwrdd ag anghenion. Mae partneriaid Cwlwm hefyd yn defnyddio data wybodaeth nhw eu hunain i geisio cyfleoedd i ddatblygu a gweithio ar y cyd i ddarparu gofal plant hyblyg. Er enghraifft, wnaeth Mudiad Meithrin (tu allan i'r cynllun SaS) gefnogi ehangiad gofal plant llawn (21 cylch), creu sesiynau Cylch Meithrin o fewn Meithrinfeydd Dydd (1 cylch), ac agor clybiau brecwast o fewn Cylchoedd Meithrin (12). Wnaethon barhau i hyrwyddo'r terfyn amser ar y cymhwyster Gwaith Chwarae ar gyfer lleoliadau sydd wedi eu cofrestru ag AGC, a hyrwyddo cyfleoedd i gaffael ar gymwysterau er mwyn i leoliadau cynnal eu cofrestriad AGC. |
| | | Gweler 1.01 |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Er gwaetha'r gostyngiad yn y nifer o ofalwyr plant a Chlybiau Allysgol, mae argaeledd gofal plant a gwaith chwarae wedi cynyddu'n ehangach dros y blynyddoedd diwethaf, ar lefel lleol a chenedlaethol, ac mae'r bylchau yn y ddarpariaeth wedi lleihau, sy'n golygu fod mynediad at ofal plant ar gael yn ehangach. Hefyd, mae'r cynnydd yn narpariaethau neu'r math o wasanaethau a chyniwyd gan ddarpariaethau wedi lleihau'r pwysau ar rieni/gofalwyr i ganfod datrysiadau gofal plant amgen. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Yn achos MM, dengys y dystiolaeth fod darpariaethau sydd wedi ehangu eu horiau i gynnig gofal plant llawn yn ffynnu, yn gyffredinol. Ar y llaw arall, ni all Cylchoedd Meithrin sy'n cynnig gofal sesiynol gystadlu gyda'r rhai sy'n cynnig gofal llawn. Er enghraifft, bu rhaid i Gylch Meithrin Betws gau gan nad oedd digon o rieni am gael 2.5 awr o ofal; yn hytrach roedd rhieni yn dewis Cylch Meithrin cyfagos oedd yn cynnig orau agor rhwng 9 – 3.<br><br>Mae'r gostyngiad yn niferoedd gofal plant yn destun pryder mawr, fel y'i nodwyd yn 1.01 mewn perthynas â dewis rhieni, cysondeb gofal i'r plant a chynaliadwyedd y sector.<br><br>Mae darparwyr gofal sesiynol yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy pan gynigir hyn yn rhan o ofal plant llawn. Fodd bynnag, canlyniad anfwriadol yw bod y gofal plant a ariannir i blant 3 a 4 oed gan y CGP yn cael ei flaenoriaethu ar draul yr oedran hŷn sy'n derbyn gofal allysgol. |
| **1.06** | | **Cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi weithredu ei chynlluniau i ehangu gofal plant a ariannir gan y Llywodraeth, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.** |
| **Gweithred** | **1** | O ganlyniad i ddatblygiad cadarnhaol gydag ariannu, mae partneriaid Cwlwm yn parhau i feddwl am a chynllunio sut i ymateb i'r her o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cynllunio darpariaethau ar y cyd. Datblygwyd nifer o gynlluniau llwyddiannus ac arloesol o ganlyniad i'r trafodaethau. Er enghraifft, mae prosiect 'Plethu' MM a BCC yn fodel effeithiol ar gyfer adnabod grwpiau chwarae gall (dros amser) drawsnewid yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, gan fwynhau aelodaeth ddeuol. |
| | **2** | Ymatebodd partneriaid Cwlwm i ymgynghoriad ar ganllawiau ehangu gofal plant drwy DD, i sicrhau bod buddiannau'r sector ac ystyriaethau cynllunio ieithyddol yn cael eu cynrychioli. |
| | **3** | Darparodd MM ei gynllun recriwtio cymwysterau Lefel 3 a 5, a wnaeth manylu ar bwysigrwydd sicrhau staff digonol ar gyfer yr ehangiad. |
| | **4** | Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn agos â LIC i ddatblygu, rhoi adborth ar, a hyrwyddo'r CGP i Gymru – Y Gwasanaeth Digidol, er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal plant yn barod am geisiadau CGP plant gan rieni. |
| | **5** | Datblygwyd yr 'Addewid Cymraeg' i gefnogi lleoliadau i ddarparu'r Cynnig gweithredol. |



| | | |
|---|---|---|
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Datblygiadau cyffrous partneriaid Cwlwm i ehangu gwasanaethau gofal plant, darparu mwy o hyblygrwydd a mynediad at ofal plant, fel bod teuluoedd yn ei chael hi'n haws cydbwyso gwaith a bywyd teuluol. Mae ehangu darpariaeth gofal plant yn ei gwneud hi'n haws i rieni a gofalwyr gael mynediad at ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg ac felly'n darparu rhagor o gyfleodd i blant ddysgu a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i ddwyieithrwydd yng Nghymru. |
| | **2** | O adborth LlC gwyddom ei bod wedi derbyn sylwadau Cwlwm parthed yr ymgynghoriad ar yr arweiniad ar ehangu gofal plant, ond nid ydym yn sicr o effaith yr adborth gan nad yw'r canllaw DD terfynol wedi ei rhyddhau eto. |
| | **3** | Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i leisio'u pryderon ynghylch heriau recriwtio o fewn y sector, codiadau cyflog ac ati. Yn mynychu lansiad yng Nghylch Meithrin Abergele, ar ran partneriaid Cwlwm wnaeth MM gynnig adborth i swyddogion a gwleidyddion LlC parthed heriau recriwtio ar draws y sector, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| | **4** | O ganlyniad i waith Cwlwm yn hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant i Gymru – Gwasanaeth Digidol, derbyniodd darparwyr hyfforddiant, adnoddau ac arweiniad ar gofrestru gyda'r gwasanaeth digidol. |
| **Tystiolaeth Sector** | | Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn wnaeth cynllun SaS MM gefnogi'r 8 cylch canlynol i ddod yn ddarparwyr DD, ac mae pob cylch SaS yn cofrestru i ddarparu'r CGP: Cylch Meithrin Brynglas, Cylch Meithrin Caerllion, Casnewydd, Gofal Plant yr Enfys Gwynllyw, Torfaen, Cylch Meithrin I D Hooson, Maes y Gornel, Cylch Meithrin Plas Coch, Wrecsam, Cylch Meithrin Y Gurnos, Merthyr Tudful, Cylch Meithrin Teulu'r Tyle, NPT. Mae nifer o gylchoedd ledled y wlad (nad ydynt yn rhan o'r cynllun SaS) wedi ennill tendrau DD, ac mae MM yn parhau i gefnogi Cylchoedd eraill i ddod yn ddarparwyr DD.<br><br>Drwy drefniant gwaith partneriaeth llwyddiannus â Sir y Fflint, wnaeth BCC gefnogi ehangu'r oriau neu'r llefydd o fewn 13 lleoliad aelod, gan ddechrau yng ngwanwyn 2023. Roedd y rhain yn cynnwys 4 darpariaeth newydd, 2 lleoliad newydd yn ehangu oriau i gynnwys darpariaeth drwy'r gwyliau, un gofal sesiynol yn ehangu oriau i ddod yn ofal dydd llawn, a 6 lleoliad yn ehangu oriau'r ddarpariaeth.<br><br>Mae 3 lleoliad yn derbyn cefnogaeth trosglwyddo iaith gan BCC (wrth symud o fod yn gyfrwng Saesneg i fod yn gyfrwng Cymraeg), yn ychwanegol i gynllun MM a'n cynllun Plethu. |

| 1.07 | | Cefnogi rhagor o rieni yng Nghymru i gael mynediad at ofal plant a ariannir gan Lywodraeth Cymru, ac i fanteisio ar gynlluniau sydd ar gael yn y DU, e.e., gofal plant di-dreth. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Wnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• baratoi gwybodaeth/diweddariad i'r sector ar sut i fanteisio ar Gofal Plant Di-dreth, y Cynnig Gofal Plant i Gymru – Gwasanaeth Digidol, a 'Making Tax Digital' drwy straeon newyddion, blogiau, gwybodaeth dros e-bost, y cyfryngau cymdeithasol ac ati<br>• hyrwyddo webinarau cenedlaethol Hempsall dros Zoom ymhlith yr aelodau<br>• adrodd i LIC ar ddiffygion prosesau CThEF yn nhermau deall y cyd-destun Cymreig<br>• fynychu cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr CThEF i hyrwyddo gofal plant di-dreth ac i fod yn bont i'r sector<br>• ymddangosodd Claire Protheroe o PACEY Cymru ar BBC Wales Live i drafod yr heriau o gael mynediad at ofal plant ac i eirioli dros y sector |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Nid yw nifer o rieni yn ymwybodol o'r mentrau ar draws y DU, ac felly nid ydynt yn medru manteisio arnynt. Bydd gwaith Cwlwm wrth hyrwyddo'r mentrau amrywiol hyn drwy ei aelodau sefydliadol, ac yn rhoi gwybod i rieni ac yn eu galluogi i gael mynediad at y gefnogaeth ariannol sydd ei angen arnynt i ddarparu'r gofal gorau posib i'w plant. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Derbyniodd webinar Hempsalls ym mis Chwefror ymateb cadarnhaol; cafwyd 115 cadarnhad o 21 o'r 22 ardal yng Nghymru. Roedd yna gymysgedd o bobl broffesiynol sy'n gweithio â'r cyhoedd, swyddogion ALI a darparwyr. Mae gan fynychwyr mynediad at becynnau cymorth ac asedau gellir eu defnyddio i hyrwyddo Gofal Plant Di-Dreth ymhlith rhieni. Tra roedd croeso i'r sesiynau a chynhigir gan Hempsalls i gynyddu ymwybyddiaeth am fanteision y fenter, mae'r tudalennau gofal plant di-dreth yn parhau i gyfeirio at drefniadau sy'n bodoli yn Lloegr yn unig, e.e. Ofsted. Nid oes gan Cwlwm fynediad i ddata byddai'n dweud wrthym a yw rhagor o rieni yn elwa o ofal plant di-dreth. |



| 1.08 | | **Cefnogi Llywodraeth Cymru i weinyddu a gwerthuso'r system ADY newydd, tra'n sicrhau bod gan y sector mynediad i adnoddau cyfredol, gwybodaeth a chyngor er mwyn sicrhau gweithrediad effeithlon y system ADY.** |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Wnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• fynychu cyfarfodydd amrywiol gyda swyddogion LlC i drafod gweithrediad y Ddeddf ADY ac i godi pryderon ynghylch rôl gofal plant a gwaith chwarae, rôl yr ALl a therminoleg o fewn y Cod a Deddf ADY, ac o ganlyniad ysgrifennwyd blog<br>• drafod materion gyda rhanddeiliaid eraill, e.e. AGC ar eu dealltwriaeth hwythau o'r system ADY<br>• ddarparu Clwb Hwb 'Hyrwyddo Cynhwysiant' a 10 Ffordd i Gefnogi Cynhwysiant fel adnodd i leoliadau<br>• greu templed cofnodi problemau i gasglu enghreifftiau o ymarfer da a phryderon dros Gymru, i'w rhannu gyda LlC a'r ALl i gefnogi'r cynlluniau gweithredu<br>• gynnal gweithdai i hyrwyddo prosesau ADY a chefnogi dealltwriaeth o'r Cod a'r Ddeddf ADY gan gynnwys sesiwn holi ac ateb<br>• gyfathrebu gydag aelodau lleoliadau ar y systemau ADY ar waith yng Nghymru, gan ddarparu diweddariadau rheolaidd a chefnogaeth ar ystod o gyfryngau ble bo angen, cefnogi lleoliadau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y prosesau ADY yn cael eu deall a'u dilyn yn unol â'r polisi. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae'r gwaith a wnaed gan Cwlwm yn sicrhau bod gan y sector mynediad i'r adnoddau/gwybodaeth ADY mwyaf cyfredol, a bod staff wedi eu hyfforddi'n addas ac yn wybodus i gefnogi rhoi'r system newydd ar waith. |
| | | Yn dilyn cyhoeddiad blog ADY Cwlwm a chefnogaeth a darparwyd gan NDNA Cymru, roedd darparwr yn medru apelio yn erbyn nodyn diffyg cydymffurfiaeth a rhoddir gan AGC am beidio cael Cydlynydd ADY. |
| | | Mae'r cofnod problemau yn darparu mewnwelediad i holl bartneriaid Cwlwm ar dueddiadau a phatrymau rhoi'r ADY ar waith. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Mynychodd PACEY Cymru Rhwydwaith CREY yn canolbwyntio ar ADY, gydag aelodau TSANA (Third Sector Additional Needs Alliance) yn darparu gwybodaeth. Rhannwyd gwybodaeth mewn perthnasedd a'r angen am hyfforddiant cyson a rheolaidd ar lefel addas i bob lleoliad, gan gynnwys gofalwyr plant. Nododd un ALl ymarfer da – bod un gofalwr plant yn defnyddio'r proffil un dudalen ar gyfer bob un o'r plant maent yn gofalu amdanyn nhw, gan eu bod nhw'n ei weld yn ddogfen ddefnyddiol wrth bontio i leoliadau eraill ac yn dda am gadw'r teulu yn rhan o'r broses. |
| | | Mae staffio yn parhau'n heriol. Er enghraifft, mae'r pwysau ar weithlu'r sector yn ei gwneud yn anodd adnabod neu recriwtio person sydd â chymwysterau addas i ofalu am blentyn sydd angen cefnogaeth am ychydig o oriau bob wythnos. |
| | | Mae'n galonogol i weld bod y nifer cyfyngedig o broblemau yn dangos bod systemau ADY yn cael eu dilyn o fewn y sector, ac yn y rhan fwyaf o achosion, rhoddir y polisïau ADY ar waith mewn ffordd effeithiol. |



| 1.09 | | Cefnogi ymdrechion i lenwi bylchau fel y'i hadnabyddir yn ADGP yr Awdurdodau Lleol, trwy gynyddu darpariaethau lle'n bosib. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Gweler 1.01, 1.03 a 1.05 |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Gweler 1.01, 1.03 a 1.05 |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Gweler isod enghreifftiau o bartneriaid Cwlwm yn gweithio gyda'r ALl i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth: |
| | | Bu swyddogion Mudiad Meithrin yn cwrdd gyda ALl Gwynedd i ymateb i bryderon daeth yn amlwg o'r data yn ymwneud â demograffeg. Bu'r cyfarfod yn myfyrio ar y gostyngiad yn y gyfradd geni a'r effaith ar gynaladwyedd y sector gofal plant ac addysg gynnar. Cytunodd swyddogion o Wynedd a'r Mudiad ar nifer o gamau i fynd i'r afael â hyn, e.e. y posibiliad o osod sawl Cylch Meithrin mewn clwstwr (o safbwynt rheoleiddiol). |
| | | Bu NDNA Cymru yn cynnal cyfarfodydd gyda ALl Torfaen i drafod cymal cyntaf ehangu Dechrau'n Deg, a sut all y sector gofal dydd llawn helpu i ateb y galw am ragor o lefydd gofal plant. Trafodwyd problemau gyda chynaladwyedd, staff cymwysedig a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y meysydd cefnogaeth a thrafodwyd oedd rhannu gwybodaeth o fewn y sector, digwyddiadau rhwydweithio a chefnogaeth gyda'r broses tendro. |
| | | Bu PACEY Cymru yn cyfarfod gydag ALl Sir Gaerfyrddin ynghylch yr angen a adnabuwyd i recriwtio gofalwyr plant, yn arbennig yn Laugharne. Cafodd syniadau hyrwyddo eu trafod, yn ogystal â chefnogaeth ariannol PACEY Cymru i'r iaith Gymraeg, a'r potensial i ofalwyr plant gefnogi darpariaeth ac ehangiad Dechrau'n Deg yn yr ardal. |

Mae Rheolwr Rhanbarthol BCC a swyddogion datblygu lleol wedi gweithio'n agos â Sir y Fflint i gefnogi'r bylchau daeth yn sgil y data a'r ADGP. Cymerwyd camau ymarferol megis adolygu'r oriau oedd ar gael o fewn 14 lleoliad a adnabuwyd, a chefnogi'r lleoliadau hynny i ehangu darpariaeth gofal plant o fewn strwythurau presennol. Wnaeth 10 lleoliad ehangu'r ddarpariaeth bresennol; agorwyd 2 lleoliad newydd a wnaeth 2 arall ychwanegu sesiwn newydd. Gwnaed gwaith ychwanegol i gefnogi 2 lleoliad arall i drawsnewid o fod yn narpariaethau anghofrestredig i rai cofrestredig er mwyn caniatáu ehangu'r gofal o fewn y lleoliadau hynny.

CPCKC - mae darpariaeth iaith Gymraeg yn flaenoriaeth uchel o fewn Casnewydd. Wnaeth y SDBGP (Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant) a ariannir gan yr ALl annog Wibli Wobli - meithrinfa cyfrwng Cymraeg i blant hyd at 5 - i ehangu'r ddarpariaeth i ofal plant allysgol i blant hŷn er mwyn cwrdd â'r galw o fewn y gymuned. Cefnogodd y SDBGP gydag arweiniad ar faterion yn berthnasol i oedrannau, cynllunio busnes, rhagolygon llif arian a grand o Gasnewydd i beilota clwb gwyliau ym mis Chwefror 2023. Yn Abertawe mae rhieni yn adrodd bod gofal plant yn llawn a ni allent gael llefydd. Awgrymir hyn fod angen rhagor o ofal plant. Fodd bynnag, mae'r SDBGP a ariannir gan yr ALl wedi canfod bod yn rhaid i leoliadau rhoi cap ar y nifer o lefydd sydd ar gael oherwydd prinder staff, ac nid ydynt felly yn llawn yn ôl y nifer o lefydd a gofrestrwyd gydag AGC. Problem arall a adnabuwyd oedd y prinder adeiladau addas, fforddiadwy oedd yn addas at ddibenion cofrestru a gallai eu defnyddio i sefydlu lleoliadau gofal plant newydd. Un awgrym oedd edrych ar ddarpariaeth gydag ystafelloedd ar gael - partneriaeth posib gyda grwpiau sesiynol llai â'r gallu i logi ystafell, byddai'n annog ffordd gydweithredol o weithio rhwng y darpariaethau, fel modd o fynd i'r afael â'r heriau hyn.




# Amcan 2:

## Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i barhau i gynyddu safon y ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae.

| **2.01** | | **Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar - CDGPC (adnabyddir yn wreiddiol fel Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar - AGPC) trwy gytundeb partneriaeth gyda'r sector.** |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>● ddangos ymrwymiad drwy ymgysylltu â LIC i rannu meddyliau ar y camau nesaf i'r Fframwaith Ansawdd CDGPC a chynllunio'r meysydd blaenoriaeth<br>● ymrwymo i weithio i gefnogi cynllunio drafft i'r Cabinet, a hynny drwy weithio o bell, ac i ymateb yn brydlon i ymholiadau LIC<br>● ddarparu mewnbwn i'r gwaith cynllunio, gan gefnogi darpariaeth gydlynol polisi CDGPC, a chynghori ar heriau a rhwystrau oedd angen eu hystyried<br>● cytuno'r cynllun gweithredu gyda LIC yn nhermau adborth ar gynnwys penodol, yn benodol ynghylch y deunydd am Gymru, yr iaith Gymraeg, dinasyddiaeth, amrywiaeth ac ati.<br>● fynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid LIC i ddatblygu dulliau CDGPC a chynrychioli safbwyntiau'r sector ar y dull CDGPC yng Nghymru |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Derbyniodd cydweithwyr polisi LIC adborth aelodau Cwlwm ar yr holiadur parti gwaith; y tair thema o hygyrchedd, gweithlu ac ansawdd, a sylwadau pellach yn sgil grwpiau trafod a dilynodd cyfarfod 3, drwy gyfraniadau ar bapur. Rhoddodd partneriaid Cwlwm adborth ar ran 1 o'r cynllun; gan roi sylwadau ar ddefnydd iaith i gefnogi ymochredd â'r sector, a dogfennaeth bresennol; a nodwyd hefyd tensiynau neu gwestiynau heb eu hateb ynglŷn â thegwch i glybiau chwarae, gofalwyr plant a lleoliadau llai nad ydynt ar hyn o bryd yn medru cynnig yr ystod lawn o wasanaethau gofal plant a ariannir, i'w gymharu â'r lleoliadau sydd â'r gallu i gynnig ystod eang o ddarpariaethau gofal plant a ariannir. Drwy gydol y sgyrsiau ers mis Ionawr, mae partneriaid Cwlwm wedi bod yn rhagweithiol wrth drafod yn strategol a chyfrannu'n llawn i sgyrsiau mewn 'breakout rooms', ac wedi darparu dilyniant ysgrifenedig i helpu siapio a diffinio'r dulliau sy'n gweithio yn y cyd-destun Cymreig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Tystiolaeth Sector** | 1 | Bu ymwneud gan y sector ehangach yn gyfyngedig o ganlyniad i natur archwiliadol, gychwynnol y trafodaethau ar bolisi. Yn ystod 2023-2024 bydd Cwlwm yn darparu atebion mesuradwy i gwestiynau ar gyfer cydweithwyr polisi LIC, gan gynnwys:<br>• defnydd plant/babanod yn y ddogfen<br>• sylwadau ar a yw teitlau eraill yn cael eu defnyddio yng Nghymru<br>• dyheadau ar gyfer y dull ôl-2026 i hysbysu llywodraethau'r dyfodol<br>Ar yr adeg addas, bydd partneriaid Cwlwm yn ymrwymo i gefnogi unrhyw brosesau ymgynghorol ffurfiol neu anffurfiol gyda'r sector. Bydd y safbwyntiau hynny'n cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru gyda'r dyhead o gefnogi gweithrediad a gwaith y sector gyfan a rhanddeiliaid ehangach i weithio tuag at ddealltwriaeth ranedig. |
| | | Rhannodd PACEY Cymru a BCC adborth pellach gyda LIC a ddylai greu cyfleoedd teg ar draws yr ystod o ddarparwyr blynyddoedd cynnar, gwaeth pa ALl neu gonsortia y'i lleolir ynddo. Credwn mai cofrestriad/cymeradwyaeth AGC yw'r allwedd i agor cyfleoedd i ddarparu gofal plant ac addysg a ariannir. |
| **2.02** | | **Cefnogi ymgynghoriad/gweithrediad y Fframwaith Ansawdd gyda'r nod o gefnogi ansawdd yn y sector.** |
| **Gweithred** | 1 | Mae partneriaid Cwlwm:<br>• wedi bod yn rhan o fireinio'r Fframwaith Ansawdd drwy weithdai rheolaidd gyda LIC<br>• wedi'u hymrwymo i gefnogi datblygiad y Fframwaith Ansawdd i ychwanegu gwerth i ddogfennaeth bresennol yng ngofal plant a gwaith chwarae<br>• yn ymrwymo i gefnogi adolygiad y Fframwaith Ansawdd pryd bynnag mae diweddariadau ar gael, a gweithio'n adeiladol gyda LIC ar y cynnwys, iaith ac ystod y Fframwaith. |
| **Effaith/ Allbwn** | 1 | Darparwyd adborth ar y Fframwaith Ansawdd gan bartneriaid Cwlwm, gan ei ddod i aliniad â'r arweiniad cefnogol presennol a fframweithiau ar gyfer y sector 0-5, fel ei fod yn fwy perthnasol a haws ei ddefnyddio. |
| **Tystiolaeth Sector** | 1 | Bydd gweithredu'r Fframwaith Ansawdd yn sicrhau bod safon a chefnogaeth yn cael eu cynnal o fewn y sector, a bydd yn cefnogi ymarferwyr wrth geisio gwell deilliannau i blant. |



| 2.03 | | Anelu i gynyddu'r nifer o leoliadau anghofrestredig sy'n cofrestru ag AGC, gan gynnwys y rhai ar safle ysgolion. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• barhau i hyrwyddo a chefnogi darparwyr anghofrestredig i symud i fod yn gofrestredig ag AGC i sicrhau'r deilliannau gorau posib ar gyfer rhieni/gofalwyr<br>• gwblhau'r llyfryn Dewis Gofal Plant, gan egluro cofrestriad AGC a'r manteision i rieni<br>• rhannodd CPCKC y newyddlen Rhifyn Haf Y Bont 2022, erthygl a webinar ar 'Perfecting Policies' ar sut i gwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn dilyn adborth gan Dîm Cofrestru AGC.<br>• lansiodd a rhannodd CPCKC fideo newydd am fanteision i rieni ddewis clybiau allysgol cofrestredig ag AGC<br>• mae CPCKC yn gweithio ar ddatblygu Rheolwr Perthynas Cwsmer (RPC) i adnabod lleoliadau anghofrestredig.<br>• mae CPCKC yn parhau i hyrwyddo a darparu cymwysterau Gwaith Chwarae sy'n mynd i'r afael â phrinder staff cymwys sy'n rhwystr i fynediad. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Er hyrwyddwyd manteision cofrestriad AGC yn eang, mae cofrestriad ar safleoedd sydd ar safle ysgol yn dueddol o fod y rhai sydd newydd agor, neu rhai sy'n ailgofrestru ar ôl newid ei endid yn gyfreithiol. Fodd bynnag, oherwydd yr ystod eang o adnoddau a gynhyrchwyd ynghylch manteision cofrestru, mae yna obaith y bydd yr adnoddau hynny yn mynd i'r afael a'r rhwystrau i'r sawl sydd wedi gweithredu'n anghofrestredig am beth amser. |
| | | Drwy brosiect 3 mlynedd CPCKC a ariannir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cyflawnir 45 cofrestriad AGC/CGP/GPDD mewn siroedd nas ariannir. Mae CYMell bellach yn cynnig grantiau a chymorth swyddogion datblygu iaith Gymraeg a datblygiad busnes, i gefnogi clybiau allysgol cyfrwng Cymraeg i gofrestru. |
| | | Bydd y RPC newydd yn galluogi CPCKC i adnabod clybiau nas cofrestrir, ynghyd â phethau'n gyffredin fel iaith a lleoliad, a danfon negeseuon wedi ei dargedu i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael, a manteision cofrestriad. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Dengys Arolwg Cenedlaethol Rhieni 2022 CPCKC nad yw 28% o rieni (plant 0-12 oed) yn deall y gwahaniaeth rhwng gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig (30% y llynedd). Ein hargymhelliad parhaus yw bod hyrwyddo parhaus o gynlluniau sy'n cynnig cefnogaeth ariannol a manteision cofrestriad AGC yn parhau'n angenrheidiol gan bawb. |
| | | Yn ystod 2022-2023, gweithiodd CPCKC gydag 11 Clwb Allysgol/21 clwb i ennill cofrestriad drwy brosiectau a ariannir/siroedd ar draws Cymru. |

| 2.04 | | Cefnogi AGC/GCC ym mhob maes gwaith, gan gynnwys cysylltu gyda rhanddeilliaid, e.e. cynhyrchu cynllun cyfathrebu ar y cyd. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• weithio gydag AGC i hyrwyddo eu gweithgareddau i ddarparwyr i ddiweddaru'r sector ar SASS a diweddariadau allweddol eraill<br>• barhau i gefnogi lleoliadau i baratoi at SASS gyda sesiynau galw mewn, webinarau, galwadau ffôn, nodiadau atgoffa ac adnoddau<br>• barhau i gynrychioli ar Gorff Cynghorol Cenedlaethol AGC, gan rannu lleisiau'r sector yn ystod y cyfarfodydd<br>• adolygu 'Canllawiau ar gyfer Darparwyr' yn rhan o gyfarfodydd gwella AGC<br>• ddiweddaru cofnod AGC gydag ymholiadau amrywiol, a rhannu'r rhain gydag AGC, er mwyn sicrhau dull cyson rhwng partneriaid Cwlwm. Ymhlith yr ymholiadau oedd oedran staff, rolau a chyfrifoldebau UC a gofalwyr plant, ffoaduriaid o Wcráin, materion diogelwch tân, matiau newid ac ati<br>• gyfarfod at Urban Foresight, a gomisiynwyd gan GCC i drafod heriau recriwtio o fewn y sector<br>• rannu'r datganiad ar y Rheoliadau Anghymhwyso Drafft (2022), ac arweiniad Cofrestru Ataliad Gwirfoddol a dogfen arweiniad ar ddiogelu o fewn y sector<br>• wnaeth CPCKC cwrdd â LIC i drafod yr opsiwn a'r budd o gynnwys Gwaith Chwarae yng nghylch gwaith GCC yn absenoldeb unrhyw sefydliad cynrychioladol, a darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r syniad<br>• darparwyd adnoddau chwarae i ŵyl dysgu GCC |
| **Effaith/ Allbwn** | 1 | Mae yna hyder cynyddol o fewn y sector i gwblhau'r SASS. Mae'r system hefyd yn addas at bwrpas gan gafodd ei fod wedi cael ei mireinio dros amser a thrwy waith Cwlwm ar y cyd ag AGC. |
| | | Mae AGC/GCC yn clywed llais y sector drwy gynrychiolaeth sefydliad ymbarél. |
| | | Trwy weithio â sefydliadau eraill fel Urban Foresight, mae partneriaid Cwlwm yn fwy ymwybodol o waith arall sydd ei angen i gwrdd â heriau recriwtio/cadw drwy ymdrechion mwy cydweithredol. |
| | | Trwy sefydlu system adrodd effeithiol (Cofnod AGC), mae partneriaid Cwlwm yn medru cyfathrebu gwybodaeth gywir a dibynadwy gyda'r sector yn haws a sicrhau bod yr holl ymholiadau yn cael ei ateb mewn modd amserol a boddhaol. |
| **Tystiolaeth Sector** | 1 | Anogir partneriaid Cwlwm i weld bod y nifer o sesiynau cefnogaeth a derbyniwyd yn is nag ym mlynyddoedd blaenorol, ond gyda 92.8% yn cwblhau'r SASS, dyma'r gyfradd uchaf sydd wedi cwblhau'r SASS hyd yn hyn. Mae'n debyg bod hyn yn dangos bod darparwyr yn medru deall a chyflwyno'r SASS heb gefnogaeth ddwys. |
| | | Mae partneriaid Cwlwm yn rhagweld heriau hir dymor gyda recriwtio a chadw staff o ganlyniad i broblemau sylfaenol megis tâl isel a llai o gyfleoedd dilyniant. |



| 2.05 | | Cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei gwaith yn ymwneud â chofrestriad proffesiynol ymarferwyr a datblygu'r gweithlu yng Nghymru. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• gyhoeddi adroddiad Arad Research ac ymateb Cwlwm i dâl, a heriau recriwtio a chadw staff yn y sector. Rhannwyd yr adroddiad hwn hefyd gyda'r Dirprwy Weinidog (dros e-bost) a rhanddeiliaid ehangach (crynodeb mewn cyfarfod)<br>• gefnogi cynlluniau LIC i ddiweddaru cynllun strategol y gweithlu drwy gynnal trafodaeth ddwys gyda swyddogion LIC o amgylch adroddiad Aran, a chafwyd trafodaeth arall gyda'r Dirprwy Weinidog o fewn y cyfarfod rhwng y bartneriaeth a'r gweinidog<br>• rannu safbwyntiau ar gofrestriad drwy gyfarfodydd y grŵp gwaith, ac ymrwymo i weithio mewn partneriaeth a LIC a rhanddeiliaid i ddiffinio'r cysyniad o gofrestr broffesiynol ar gyfer y gweithlu<br>• ymrwymo amser ac arbenigedd i sgyrsiau archwiliadol i gefnogi diffinio'r Gofrestr Broffesiynol a chwblhau tasgau gwaith i gefnogi'r gofrestr<br>• rannu Arolwg Cenedlaethol Rhieni CPCKC 2022<br>• barhau i gynnig ystod eang o hyfforddiant a webinarau i ddatblygu DPP y gweithlu |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Cynrychiolodd Cwlwm y sector, yn gyffredinol a gan gynrychioli safbwyntiau sy'n benodol i rannau'r sector yn unig, wrth drafod awgrymiadau am gofrestr broffesiynol. Rydym yn dal i gynnal trafodaethau adeiladol o fewn cyfarfodydd y grŵp gwaith, ond mae angen dadansoddiad pellach wrth ystyried y safbwynt mewn perthnasedd â:<br>• Gofalwyr plant<br>• Staff yn gweithio mewn lleoliadau anghofrestredig<br>• Be sy'n bosib o dan strwythurau deddfwriaethol sy'n bodoli ar hyn o bryd<br>• Ffitrwydd i weithredu ac agweddau DPP y gofrestr<br>Mae partneriaid Cwlwm yn parhau'n ymroddedig i barhau â sgyrsiau cefnogol, a phryd mae yna eglurder ynghylch ystod y gofrestr, wnân nhw brofi'r cysyniad o gofrestr gyda rhai aelodau i geisio mewnwelediad i'r gweithrediad a llais y sector, cyn y broses ymgynghoriad ffurfiol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Tystiolaeth Sector** | 1 | Mae prosiect Childcare Works NDNA yn cyfuno Fframwaith Anwytho Cymru Gyfan i'r elfen hyfforddiant o'r rhaglen cyflogaeth 16 wythnos o hyd, sydd, ynghŷd â'r profiad ar leoliad mewn lleoliad gofal plant, yn cefnogi datblygiad y prosiect Cymhorthion Meithrinfa Dan Hyfforddiant, ac felly'r gweithlu gofal plant yng Nghymru. Gweithiodd NDNA gyda 41 CMDH. Aeth 25 o'r 41 i gyflogaeth. Allan o'r rheini, cafodd:<br>● 12 cyflogaeth mewn lleoliad gofal plant<br>● 8 cyflogaeth fel CD o fewn adran blynyddoedd cynnar ysgolion<br>● 1 cyflogaeth o fewn y sector gofal<br>● 4 cyflogaeth mewn sector gwahanol |
| | | Nid oes ystadegau ar hyn o bryd, gan na chynhelir sgyrsiau ffurfiol gyda'r sector o ganlyniad i drafodaethau parhaus am ystod y gofrestr broffesiynol, y dulliau yn ymwneud â'r gweithredu, a chydnabyddiaeth o'r effaith negyddol posib o godi pryderon ynghylch cofrestr fydd o bosib ddim yn cynnwys pob rhan o'r sector gofal plant. |
| **2.06** | | **Cefnogi'r sector Gwaith Chwarae a gyrru'r deilliannau a daw yn sgil Adolygiad y Gweinidog o Chwarae.** |
| **Gweithred** | 1 | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>● ddarparu adborth ar ddrafft terfynol Adolygiad y Gweinidog o Chwarae, ac adolygu'r adroddiad terfynol ym mis Tachwedd 2022. Gafodd hwn ei rannu gyda'r sector.<br>● gwnaeth CPCKC amlygu pryderon dros y prinder Prentisiaethau Gwaith Chwarae gyda LIC/PETC<br>● ceisiodd CPCKC ymestyniad o'r agweddau cymwys o PfS (Cynnydd ar gyfer Llwyddiant) er mwyn parhau i ddarparu'r Wobr Trawsnewid i Waith Chwarae<br>● hyrwyddo manteision chwarae a syniadau ar gyfer gweithgareddau chwarae |
| **Effaith/ Allbwn** | 1 | Rhannu'r Adolygiad y Gweinidog o Chwarae, codi ymwybyddiaeth o chwarae o fewn y sector. |
| | | Ar ôl amlygu pryderon dros y prinder Prentisiaethau Gwaith Chwarae, gofynnwyd i'r Prif Gontractwyr ymgymryd â dadansoddiad man cyfyng er mwyn adnabod sectorau sydd angen nawdd ychwanegol. Canlyniad hyn oedd y cafodd CPCKC cychwyniadau Gwaith Chwarae am weddill y flwyddyn academaidd. Wnaeth CPCKC hefyd ymateb yn llwyddiannus i L2APP i Gaerdydd Casnewydd, Sir Fynwy a Dyffryn Morgannwg. |
| | | Rhoddwyd estyniad i Cynnydd ar gyfer Llwyddiant ym mhob ardal (heblaw Powys) yn hwyr ym mis Rhagfyr, gan alluogi CPCKC i ddarparu TiWC tan fis Mawrth 2023. Erbyn diwedd Mawrth 2023 bydd 529 o ddysgwyr wedi derbyn cymhwyster TiWC drwy brosiect Cagl a chefnogir. Rydym wedi derbyn cadarnhad y bydd TiWC yn cael ei ymestyn ymhellach tan fis Medi 2023. |
| **Tystiolaeth Sector** | 1 | Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae yn nodyn atgoffa pwysig o'r pwysigrwydd o chwarae, ac o'r angen i fuddsoddi ynddo. Mae'n hanfodol fod Cwlwm yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd o chwarae gan ei fod yn cael effaith cadarnhaol ar iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol plant.<br>Erbyn diwedd mis Mawrth roedd 529 o ddysgwyr wedi ennill cymhwyster TiWC drwy'r prosiect CaLl a ariannir. |

| 2.07 | | Cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei gwaith yn ymwneud â newidiadau i'r SGC, diwygio'r diwrnod/blwyddyn ysgol, a meysydd deddfwriaethol eraill. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | 1 | Gwnaeth partneriaid Cwlwm hyrwyddo'r ymgynghoriad SGC a hwyluso'r 18 webinar/digwyddiad gyda 210 yn cymryd rhan, er mwyn cael mewnbwn y sector o'r ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant wedi'i reoleiddio am blant hyd at 12 oed. Wnaeth partneriaid Cwlwm hefyd ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad, ac ymateb i ymholiadau pellach ar yr ymgynghoriad SGC gan LIC. |
| | **2** | Rhannodd partneriaid y crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad i'r newidiadau arfaethedig i'r SGC o fewn y sector. |
| | **3** | Croesawir Cwlwm y cyfle am ragor o gydweithio ar ddiwygio'r diwrnod ysgol a sut gall datblygiadau Ysgolion Bro (YB) darparu cyfleoedd i leoliadau cofrestredig ag AGC ddarparu gwasanaeth gofal cofleidiol o amgylch y diwrnod ysgol i rieni sy'n gweithio. Byddai defnyddio lleoliadau gofal a gwaith chwarae sydd eisoes yn bodoli yn cefnogi unrhyw estyniad o'r diwrnod ysgol, yn ogystal â chefnogi cynaladwyedd y sector. |
| | **4** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm hwyluso digwyddiad ymgynghorol Cwlwm gyda'r sector, a darparwyd ymateb wedi'i goladu i'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) Drafft 2022. Rhannwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad gyda'r sector. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Roedd y trafodaethau yn y digwyddiadau ymgynghori ar y SGC yn ddefnyddiol iawn ac yn gymorth i Cwlwm ddeall safbwyntiau'r sector, a wnaethon nhw hysbysu ymatebion sefydliadol unigol yn ogystal â chynnig cyfleoedd i'r sector rhannu eu safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig. |
| | **2** | Hysbyswyd y sector o'r newidiadau i'r SGC fydd yn cael effaith sylweddol ar y ffordd maent yn gweithredu. |
| | **3** | Mae yna bryder o fewn y sector Allysgol y bydd diwygiad y diwrnod ysgol yn effeithio clybiau'n negyddol. Trefnir cyfarfodydd pellach yn 2023-24 i archwilio a thafod gwerth Clybiau Allysgol a'u lle o fewn ethos ac arweiniad YB. |
| | **4** | Mae'r datganiad am yr ymateb i'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) Drafft 2022 yn egluro pwy gaiff ei anghymhwyso rhag cofrestru fel gofalwr plant neu ddarparwr gofal dydd, ac mae'n ddull diogelu pwysig i helpu sicrhau nad yw bobl anaddas yn cael darparu gwasanaeth gofal plant yng Nghymru. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1-3** | Tra na fuodd unrhyw weithgarwch pellach parthed y newidiadau arfaethedig i'r SGC, mae partneriaid Cwlwm wedi codi rhwystrau neu heriau posib o amgylch y newidiadau i ofynion hyfforddiant Cymorth Cyntaf a Diogelu. Yn yr amgylchedd ariannol cyfredol rhaid ystyried yr effaith ariannol a staffio ar ddarpariaethau pan mae angen rhyddhau staff, PC ac UI i fynychu hyfforddiant yn ogystal â'r goblygiadau cyllidol. |



| 2.08 | | **Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu gofal plant a ariannir drwy'r Cynnig Gofal Plant i Gymru, gan gynnwys paratoi'r sector i symud i'r gwasanaeth Cynnig Gofal Plant cenedlaethol digidol, a sicrhau bod y sector yn barod i ymestyn y Cynnig Gofal Plant i rieni sydd mewn addysg neu hyfforddiant.** |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>● fynychu hyfforddiant ar y gwasanaeth digidol cenedlaethol i baratoi at ei ddarparu, a darparu adborth ffurfiol ac anffurfiol wedi i'r system lansio<br>● rannu gwybodaeth/diweddariadau cynhwysfawr parthed y gwasanaeth digidol o fewn y sector, trwy holl sianeli cyfathrebu Cwlwm gan gynnwys newyddlenni tymhorol Cwlwm<br>● fynychu a chyfrannu at brosiect grŵp Cynnig Gofal Plant i Gymru: Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Roedd partneriaid Cwlwm yn gallu cynrychioli profiadau a barn y sector ar y gwasanaeth digidol cenedlaethol. Roedd y sector yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd a'r goblygiadau o beidio cofrestru'r darpariaethau ar y gwasanaeth digidol cenedlaethol. Mae'r sector yn gwybod y gallent godi unrhyw bryderon gyda phartneriaid Cwlwm. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Deallwn fod y rhan fwyaf o'r sector wedi cofrestru'n effeithiol, a bod y system newydd yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth fod y gwasanaeth newydd yn achosi rhai problemau i ddarparwyr oherwydd:<br>● taliadau hwyr<br>● oedi wrth gyhoeddi taflenni amser i ddarparwyr eu cwblhau<br>● porth newydd yn gofyn am oriau yn hytrach na diwrnodau (mae'r ALl yn dal i ofyn am y data hwn)<br>● mae cael dwy system yn cymryd peth amser, yn ogystal â'r angen i ddarparwyr gefnogi rhieni i gwblhau'r broses ymgeisio<br>Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i ymwneud â LIC ac i adrodd problemau. |

| 2.09 | | Cefnogi cyfathrebu a chydweithio rhwng addysg (ysgolion) a gofal plant ar bob lefel, i gefnogi sector gofal plant cynaliadwy (e.e. mynediad i safleoedd, lefelau rhent, llywodraethant, cofrestriad, ac ati). |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Ar ran partneriaid Cwlwm wnaeth CPCKC:<br>● amlygu manteision, nodweddion cadarnhaol a heriau adeiladau cymunedol a defnyddir i gwrdd â'r angen am ofal plant fforddiadwy, cynaliadwy gyda'r Dirprwy Weinidog a chyflwynwyd papur i LIC<br>● cwrdd ag arweinydd dysgu proffesiynol addysg LIC i hyrwyddo cymwysterau gwaith chwarae i staff ysgol; arweiniodd hyn at wahoddiad gan Consortiwm De Cymru i gynnal gweithdy cynhadledd<br>● hyrwyddo TiWC gyda rhwydweithiau CD i gefnogi gyrfaoedd portffolio<br>● barhau i archwilio ffyrdd o weithio ar y cyd at lefel strategol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gyfleoedd YB, SHEP ac ati<br>● barhau i rannu gwybodaeth gan leoliadau am yr heriau parhaus o gynnydd rhent a wnaethon ni ymgynghori gyda'r sector trwy'r Arolwg Clwb Cenedlaethol |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mewn ymateb i'r papur ar leoliadau o fewn y gymuned, mae LIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid LIC perthnasol i gynyddu ymwybyddiaeth. Mae cydweithwyr ym myd addysg hefyd yn rhannu heriau gyda chynrychiolwyr cyrff llywodraethol, ac rydym yn disgwyl am ymateb. |
| | | Trefnir cyfarfod pellach gydag arweinwyr YB LIC yn ystod 2023-2024. Mae hyn yn ganolbwynt pwysig gan mai'r nod yw i bob ysgol ddod yn YB. Fodd bynnag, ledled gwlad mae enghreifftiau niferus o ysgolion unigol sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi gofal plant. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Mae CPCKC wedi ychwanegu astudiaethau achos i'w gwefan i ddangos y gwaith – gweler Aros a Chwarae Success Stories - Clybiau Plant Cymru (EN).<br>Yn yr Arolwg Clwb Cenedlaethol CPCKC, nododd 73% o glybiau angen am gefnogaeth ariannol, gyda sylwadau niferus megis:<br>● biliau ynni uwch yn gwneud hi'n amhosib rhedeg y math yma o fusnes gan fod gan y plant anghenion a hawliau<br>● rydyn ni wedi lleihau i ddau brynhawn yr wythnos, wedi lleihau'n oriau, lleihau staff, ac ati. Mae angen iddo gael ei ariannu'n llawn gyda chyflog addas i staff, llefydd am ddim neu ffioedd gostyngedig os am barhau yn wyneb costau cynyddol |



| 2.10 | | Cefnogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill mewn perthnasedd â'r Adolygiad Annibynnol o Ofal Plant. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Ar ran partneriaid Cwlwm wnaeth CPCKC:<br>• ymgymryd â chyfweliad dwys gydag Arad Research i gefnogi rhannu safbwyntiau'r sector, yr heriau allweddol, cyfleoedd a dulliau addas i gasglu tystiolaeth gan ofalwyr plant<br>• rannu arolwg Aran gydag aelodau<br>• wahodd Arad i'r gynhadledd hydrefol lle wnaethon nhw gynnal sesiwn ymgysylltu ag aelodau |
| | **2** | Mae'r adroddiad a chyhoeddwyd gan LC wedi ei ohirio, a ni dderbynnir copi hyd yn hyn. Mae PACEY Cymru yn parhau i amlygu'r angen am ddiweddariadau ar hyn, a gwthio cyhoeddiad yr adroddiad. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Wnaeth yr ymgysylltiad caniatáu aelodau i drafod a chodi'r pwyntiau canlynol:<br>• materion sy'n ddatganoledig i'r ALl ac anghysondebau – gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu Dechrau'n Deg a ariannir, ac Addysg Blynyddoedd Cynnar, gwastraff masnachol, cynllunio lleol<br>• ystyriaethau cymhareb – cyfleoedd i ddarparu rhagor o hyblygrwydd<br>• AGC – arolygiadau, cyswllt, gweithdrefnau a chyfathrebiadau<br>• teitl 'gofalwr plant' – ydi hyn yn addas ac yn gyfredol<br>Cafodd yr ymgysylltiad ymateb gwresog, gyda sylwadau fel 'digwyddiad da, cadarnhaol sy'n rhoi llais i ofalwyr plant'. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Mae'r oedi yng nghyhoeddiad yr adroddiad yn heriol gan fod PACEY Cymru yn edrych i ddefnyddio hwn fel ffordd i ysgogi newid a gwelliannau mewn perthynas â gofal plant, i arafu neu ddadwneud y lleihad a welir yn niferoedd gofalwyr plant. |

| 2.11 | | Gweithio gyda'r FSA, AGC a Llywodraeth Cymru i symud ymlaen y gwaith o gwmpas cynnwys gofalwyr plant yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Ar ran partneriaid Cwlwm wnaeth PACEY Cymru ddarparu adborth ar ddrafft terfynol gan yr FSA oedd yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ar eithriad presennol gofalwyr plant o'r CSHB yn dilyn gwaith maes a wnaeth gan Ipsos Mori. |
| | **2** | Ni wnaed unrhyw waith pellach y chwarter hwn gan fod yr FSA yn oedi. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Gwnaeth y gwaith maes a wnaed gan Ipsos Mori sicrhau fod llais gofalwyr plant i'w glywed yn gryf drwy'r adroddiad. Wnaeth yr adborth a darparwyd gan PACEY Cymru amlygu'r angen i adolygu cynnwys yr adroddiad, oedd yn cynnwys:<br>● adolygiad dyfyniadau oedd yn anwybodus neu'n anghywir<br>● eglurhad o safbwynt mewn rhai mannau<br>● adolygiadau i dynnu anghysondebau neu bethau anghywir<br>● terminoleg a defnyddiwyd<br>● y sail resymegol ehangach |
| | **2** | Yn dilyn diweddariadau gynt, mae'n annhebygol y bydd y gwaith hwn yn cael ei barhau, gan nad oes tystiolaeth o ddiddordeb mawr neu'r angen i gael ei gynnwys o fewn unrhyw gynllun. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1-2** | Nid yw PACEY Cymru yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth yn dangos effaith ar ddarparwyr. |



# Amcan 3:

## Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae a chefnogi datblygiad gweithlu medrus ac amrywiol.

| 3.01 | | Cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei gwaith o adolygu ac adnewyddu'r Cynllun Gweithlu 10 Mlynedd, ac i fynd i'r afael â recriwtio a chadw ymarferwyr/staff (o safbwynt cymhwyso a hyfforddi). |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• barhau i gael mewnbwn i'r cyfarfodydd/grwpiau mapio amrywiol o fewn LIC/ALI a darparwyr hyfforddiant er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r materion ym mhob rhan o'r sector, ac i drafod datrysiadau posib.<br>• hyrwyddo swyddi gwag o fewn yn sector. Hysbysebwyd cynlluniau hyfforddi a phrentisiaethau hefyd i sicrhau bod gweithlu newydd yn cael ei recriwtio a'i ddatblygu i ddatblygu DPP staff<br>• hyrwyddo pecyn recriwtio ar ran Colegau Addysg Bellach i ddenu pobl ifanc i'r gweithlu<br>• barhau i ddarparu cynllun hyfforddi tonnog<br>• ddarparu cyfleoedd i Urban Foresight i gwrdd â'r sector<br>Cytunwyd i gynnwys cymhwyster L3 CCPLD ar y fframwaith cymhwyster o dan rôl y gofalwr plan, er mwyn diddymu rhwystr i fod yn ofalwr plant. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Gall partneriaid Cwlwm amlygu'r gwaith a wnaed ganddynt i gefnogi'r Cynllun Gweithlu 10 mlynedd yn ystod y cyfarfodydd a mynychwyd ganddynt, a thrwy hel gwybodaeth gan y sector ar heriau recriwtio a chadw staff. Mae LIC a'r rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'r holl waith y mae partneriaid Cwlwm yn ymgymryd â fo er mwyn tynnu sylw at y problemau heriol a phryderus a wyneba'r sector. |
| | | Mewn cyfarfod Grŵp Cyfeirio Arbenigol (GCA) i'r grŵp mapio Blynyddoedd Cynnar a Chymwysterau Gofal Plant Gofal Cymdeithasol Cymru, adnabuwyd y ffaith y derbynnir cymwysterau lefel 2 – 7 weithiau ym meysydd arall gweithlu'r plant, ond nid o fewn y fframwaith cymwysterau gofal plant a blynyddoedd cynnar. Yn ogystal â darparu gwybodaeth arbenigol, mae'r GCA hefyd wedi gwneud gwaith ychwanegol i fapio'r cymwysterau hyn yn erbyn egwyddorion cynllunio a GCG, a'u meincnodi yn erbyn deilliannau dysgu CCPLD. Gall penderfyniad i gynnwys y cymwysterau hynny arwain at gynnydd yn y nifer o weithwyr sy'n gymwys i weithio o fewn y sector, os penderfynir bod y cymwysterau yn berthnasol. |
| | | Clywodd Urban Foresight yn uniongyrchol yr effaith gaiff yr argyfwng recriwtio a chadw ar y sector. Bydd Urban Foresight yn rhannu deilliant eu gwaith ymchwil â phartneriaid Cwlwm. |

| | | |
|---|---|---|
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio'r gweithlu; mae staff yn gadael y proffesiwn ar gyfer gwaith sy'n talu'n well, e.e. gweithio mewn archfarchnadoedd. Mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar gadw staff o fewn y sector. Gwnaeth arolwg mewn digwyddiad NDNA Cymru amlygu sut mae materion cadw staff yn effeithio ar recriwtio:<br><br>A ydych chi'n cael trafferth recriwtio'r lefelau canlynol?<br><br>Lefel 3- 93%<br>Lefel 2 – 52%<br>Prentisiaid – 17%<br>Siaradwyr Cymraeg – 45%<br>Staff di-gymhwyster – 3% |
| | | Yn ogystal, mae gwybodaeth o'r sector yn dangos fod yr argyfwng costau byw hefyd yn effeithio treuliau darparwyr, sy'n cael effaith negyddol ar eu cynaladwyedd. |
| **3.02** | | **Cefnogi GCC ym mhob maes gwaith, gan gynnwys cysylltu efo rhanddeiliaid a chynrychioli'r sector.** |
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• barhau i gael mewnbwn i'r cyfarfodydd gyda GCC, amlygu anghenion y sector, yn enwedig o amgylch recriwtio a chadw staff, ac arweiniodd hynny at hyfforddiant newydd fel y rhaglen 'Cyflwyniad i'r Blynyddoedd Cynnar'<br>• hyrwyddo'r hybiau Ymarferwyr BCC trwy fwletinau, newyddlenni a'r cyfryngau cymdeithasol<br>• rhannwyd fideos i gefnogi recriwtio gweithwyr chwarae a gweithwyr gofal sesiynol<br>• gael mewnbwn i adnoddau GCC, e.e. atal a rheoli haint, lles, 'Datblygu gweithlu dwyieithog i'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar'<br>• gael mewnbwn i feysydd gwaith GCC, e.e. fframwaith hyfforddi diogelu, cynnwys cymhwyster Ymarfer L3 CCPLD ar fframwaith cymwysterau AGC i ofalwyr plant, fframwaith iaith Gymraeg, ac ati<br>• cyflwynodd PACEY Cymru sesiwn byr ar fod yn ofalwr plant fel siaradwr gwadd ar gwrs GCC 'Cyflwyniad i Ofal Plant'<br>• darparodd CPCKC hwb i reolwyr i adeiladu hyder gyda chwarae sy'n cynnwys risg |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae gweithio gyda GCC i fynd i'r afael â heriau yn ymwneud â recriwtio a chadw staff yn sicrhau dull cydlynol sy'n cwrdd ag anghenion y sector. |
| | | Mae darparu cyfleoedd DPP i'r sector, e.e. SCG, arweiniad a rheoli yn cefnogi recriwtio i'r sector. |
| | | Cytunwyd i gynnwys cymhwyster Ymarfer CCPLD L3 yn rhan o'r fframwaith cymwysterau o dan swydd y gofalwr plant. O ganlyniad bydd hyn yn cael effaith cadarnhaol ar darged 3.01 gan fydd yn diddymu rhwystr i ddod yn ofalwr plant. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfrannu at ddatblygiad adnoddau amrywiol, sicrhau bod yr adnoddau yn berthnasol i'r sector, ac yn sicrhau fod gan y sector yr holl wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwybodus. E.e. bydd 'Datblygu gweithlu dwyieithog i'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar' yn cefnogi'r gweithlu yn eu taith ar draws y continwwm iaith, gan gefnogi rhagor o leoliadau i ddod yn ddwyieithog. |
| | | Gwnaeth cyfranogiad partneriaid Cwlwm i sesiynau/hybiau niferus sicrhau bod gan gyfranogwyr mwy o hyder a gwell dealltwriaeth o'r meysydd pwnc. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Nododd adborth gan GCC ym mis Mawrth fod 5 cwrs 'Cyflwyniad i ofal plant' wedi eu cynnal, gyda 48 dysgwr wedi eu cwblhau. |
| | | Cytunwyd ar ddyddiad lansio i gynnwys cymhwyster Ymarfer CCPLD L3 fel cymhwyster sy'n addas i gofrestru ag AGC ar y fframwaith cymhwyster i ofalwyr plant, gyda'r dyddiad arfaethedig unai yn 2023 neu 2024. |
| **3.03** | | **Cefnogi GCC i weithredu'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan / DPP o fewn y sector.** |
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• hyrwyddo digwyddiadau ymgysylltu GCC i gefnogi darparwyr wrth roi'r Fframwaith SGC ar waith<br>• rhannu manylion y Fframwaith SGC a digwyddiadau GCC o fewn eu digwyddiadau ymgynghori SGC<br>• darparu adborth ar yr adnodd Fframwaith SGC digidol drafft<br>• bu BCC yn cynnal digwyddiad Fframwaith SCG ar gyfer lleoliadau sy'n aelod<br>• yn ogystal â chyfrannu at y Fframwaith SGC, mae CPCKC wedi mapio cymwysterau Gwaith Chwarae i'r fframwaith |
| | **2** | Mae'r Fframwaith SCG wedi ei weithredu yn rhan o'r rhaglen Childcare Works ar draws gwahanol ranbarthau o Gymru, ac mae'n ffurfio sylfaen yr hyfforddiant i aelodau newydd a darpar aelodau'r gweithlu. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Adroddwyd GCC fod yna gynnydd sylweddol yn y nifer o bobl sy'n cofrestru i fynd ar ddigwyddiadau, o ganlyniad i ymdrechion parhaol Cwlwm i hyrwyddo'r rheini. |
| | | Gwnaed Cwlwm yn ymwybodol nad oedd y mwyafrif o leoliadau yn ymwybodol o, na'n defnyddio'r, Fframwaith SCG. Roedd hyn hefyd yn amlwg pan gynhaliwyd digwyddiadau ymgynghorol ar y SGC. Yn dilyn hyn, rhannodd partneriaid Cwlwm dolenni i wefan GCC. |
| | | Bydd ymwneud partneriaid Cwlwm yn yr adnodd digidol Fframwaith SCG yn sicrhau bod y teclyn yn addas at y sector, ac yn cefnogi ymgysylltu'r sector. |
| | | Darparodd y digwyddiad Fframwaith SCG a chynhelir gan BCC trosolwg a dealltwriaeth buddion FSCG i'r sawl a fynychodd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwnaeth y gwaith mapio a wnaed gan CPCKC sicrhau y gellir adnabod bylchau yng ngwybodaeth y rhai sydd â chymwysterau cymun a mynd i'r afael â nhw. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Awgrymir tystiolaeth nad yw nifer o leoliadau yn dal i fod yn ymwybodol o'r Fframwaith SCG, er hyrwyddwyd yn eang. |
| | **2** | Gafodd cymhorthydd meithrin dan hyfforddiant o brosiect [Childcare Works Project](), ei lleoliadau gwaith ym meithrinfa dydd Morris Mouse, Abertawe. Roedd yr hyfforddwraig wedi cwblhau elfennau o'r Fframwaith SCG cyn dechrau ei lleoliad, a wnaeth hi barhau i gwblhau'r elfen dra'i bod ar leoliad, i gefnogi ei gwybodaeth a datblygu wrth weithio o fewn y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a sector chwarae. |
| **3.04** | | **Cefnogi'r amcan i gynyddu'r nifer o staff cymwys o yn y gweithlu sy'n medru siarad Cymraeg, gan sicrhau bod 100 o ddarparwyr yn ymgymryd â chymwysterau gofal plant Lefel 3 cyfrwng Cymraeg, a 50 o ddarparwyr yn ymgymryd â chymwysterau gofal plant Lefel 5 cyfrwng Cymraeg.** |
| **Gweithred** | 1 | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>● ymgorffori hyrwyddo gofal plant fel gyrfa i gyfarfodydd efo'r ALl a darparwyr hyfforddiant fel bod ysgolion yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd<br>● hyrwyddo'r holl ymgyrchoedd recriwtio gan MM, gan gynnwys profiadau dysgwyr sy'n hyrwyddo manteision gweithio o fewn y sector<br>● cyfrannu at ymgyrchoedd Gofalwn Gymru a'u hyrwyddo ar holl sianeli cyfathrebu a chynnwys erthyglau o fewn newyddlen dymhorol Cwlwm<br>● wnaeth CPCKC gofrestru'r cohort gyntaf, a lansiwyd bwrsariaethau i annog pobl i gymryd llefydd |
| | **2** | Oni bai eu bod yn rhugl yn y Gymraeg yn barod, mae'n rhaid i bob dysgwr sy'n gwneud cymhwyster Gwaith Chwarae gyda CPCKC hefyd gwneud cyrsiau Camau. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae yna gyfleoedd ehangach i ddysgwyr cymhwyso gyda chymhwyster CCPLD. Mae dysgwyr yn gweithio wrth gymhwyso. Mae dysgwyr yn derbyn cymorth aseswyr trwy weithdai misol. |
| | **2** | Mae CPCKC yn helpu i fynd i'r afael â'r bylchau yn y gweithlu Gwaith Chwarae sy'n siarad Cymraeg. |
| **Tystiolaeth Sector** | 1 | Mae data Mudiad Meithrin yn cadarnhau:<br>CCPLD Lefel 3 – 21 dysgwr<br>CCPLD Lefel 5 (Arweinyddiaeth/Rheoli) – 26 dysgwr<br>Mae data CPCKC yn cadarnhau:<br>Mae'r cymwysterau Gwaith Chwarae canlynol wedi dechrau:<br>3* Lefel 3 diploma llawn yn Gwaith Chwarae<br>2 * Lefel 2<br>25 TiGC a<br>6* L2 Prentis |

| 3.05 | | Cefnogi mwy o glybiau chwarae ac ar ôl ysgol i hyfforddi mewn cymwysterau gwaith chwarae er mwyn cefnogi i ehangu gwasanaethau cofrestredig. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Wnaeth cais 'pwynt pwysau' CPCKC arwain at nawdd ychwanegol drwy'r contractwyr Prentisiaethau. Yn PETC wnaeth CPCKC amlygu'r angen i'r darparwyr cymwysterau Gwaith Chwarae eraill sydd dan gontract i ddarparu CeLl ddarparu ymestyniad CeLl. Gwnaeth CPCKC hefyd gofyn i aelodau rhannu'r wybodaeth am yr hyfforddiant oedd ar gael, ac i drafod yr angen i unrhyw ddarparwyr nad oeddent yn defnyddio'r nawdd i hysbysu LlC fel y gellir o bosib ailddyrannu'r nawdd.<br>Mae CPCKC yn cynllunio darpariaeth y cymwysterau Gwaith Chwarae cyfrwng Cymraeg (megis L2APP a TiGC, L2 a L3) gyda hyrwyddo/recriwtio yn dechrau ym mis Ionawr 2023 yn rhan o nawdd CYMell. |
| | | Mae CPCKC yn gweithio â LlC i amlygu uchafbwyntiau a heriau'r CeLl presennol i helpu llywio'r rhaglen hyfforddiant a chefnogaeth newydd. Cynigwyd dadansoddiad o anghenion hyfforddi i leoliadau All Ysgol. Mae CPCKC wedi bod yn gweithio gyda rhai ALl i fynd i'r afael â heriau recriwtio ac ariannu cymwysterau, a hefyd wedi cynnig cefnogi Chwarae Cymru i'w galluogi i ddarparu cymwysterau Gwaith Chwarae a rhai tebyg (ADDAPT). |
| **Effaith/ Allbwn** | | Mae CPCKC yn darparu rhagor o cohort TiGC (estyniad CeLl) a chadarnhawyd nawdd ychwanegol ar gyfer y Brentisiaeth ar gyfer cymwysterau 2023-24, gan gefnogi cofrestriad AGC a'r gweithlu Gwaith Chwarae. Mae cymwysterau Gwaith Chwarae ar gyfer Gwaith Chwarae hefyd wedi dechrau gyda bwrsariaethau hefyd ar gael. |
| | | Mae gan LlC adborth y sector i hysbysu'r rhaglen hyfforddiant a chefnogi newydd. Mae gan glybiau unigol cynlluniau gweithredu i gynnal cofrestriad AGC. |
| **Tystiolaeth Sector** | | **Wedi cyflawni 615 cymhwyster YTD:** Fframwaith Sgiliau Hanfodol/Gwaith Chwarae a Phrentisiaethau/TiGC ar lefelau 2, 3 a 5. Mae hyn hefyd yn cynnwys y Gwaith Chwarae Lefel 1 a ariannir gan yr ALl, gyda 78 o 112 dysgwr yn cyflawni'r cymhwyster, gan gefnogi recriwtio a sefydlu o fewn y sector. |
| **3.06** | | **Cefnogi cynnydd yn narparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg, gan ganolbwyntio ar hyfforddiant a chefnogi cyn-gofrestru.** |
| **Gweithred** | **1** | Trwy gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae PACEY Cymru wedi ariannu dysgwyr cyfrwng Cymraeg ar hyfforddiant cyn-gofrestru ar gyfer gwarchodwyr plant. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae'r cyllid ychwanegol wedi dileu'r rhwystr costau i siaradwyr Cymraeg a'u hannog i symud tuag at gofrestru. Mae heriau'n parhau mewn perthynas â derbyn hyfforddiant cyn-gofrestru; nid yw hyn yn unigryw i'r sector cyfrwng Cymraeg. Codwyd materion yn ymwneud â hyn mewn trafodaethau gydag ARAD mewn perthynas â'r Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant. Disgwyliwn gyhoeddi'r ddogfen hon. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Mae data PACEY Cymru yn cadarnhau:<br>• mae 6 siaradwr Cymraeg wedi cael mynediad i unedau gwarchod plant cyn-gofrestru wedi'u hariannu<br>• 8 gweithio tuag at gyflawni'r unedau ar hyn o bryd.<br>• 3 wedi cwblhau'r unedau |

# Amcan 4:

## Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i sicrhau bod lleoliadau'n dod yn fwy cynaliadwy, o safbwynt ariannol.

| **4.01** | | **Newidiadau i lefelau cyllido yn cael eu hegluro i'r sector, ynghyd â chefnogaeth ar ddod yn fwy cynaliadwy.** |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | I hysbysu a chefnogi'r sector wnaeth partneriaid Cwlwm, drwy eu sianelau cyfryngau cymdeithasol, rannu gwybodaeth ar y Cynnig Gofal Plant a'r cynnydd yn y gyfradd a thelir am addysg gynnar a bwyd. Paratowyd adnoddau briffio niferus gan gynnwys: taenlen adennill costau, gwybodaeth ar ddarparwyr cyflogres, newidiadau i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, gwybodaeth am grantiau, sut i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, ac ati. |
| | **2** | Yn dilyn Datganiad y Gwanwyn danfonodd partneriaid Cwlwm cyfathrebiadau yn unigol at eu haelodau yn egluro na fyddai'r penderfyniadau yn San Steffan o reidrwydd yn arwain at newidiadau di-oed i gyllido yng Nghymru. Yn dilyn Datganiad y Gwanwyn cefnogodd PACEY Cymru sesiwn holi ac ateb fyw i aelodau yn Lloegr a Chymru. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae gan sefydliadau sy'n aelodau gwell dealltwriaeth o faterion ariannol a mynediad i adnoddau gweledol clir a hygyrch. Mae'n amser heriol i bob cyflogwr, yn enwedig i'r sector gofal plant a gwaith chwarae. Mae cefnogaeth arbenigol barhaus o staff Cwlwm yn gadael i ddarpariaethau gwerthuso eu sefyllfa ariannol, addasu eu gwasanaethau ac aros ar agor. |



| | | |
|---|---|---|
| | **2** | Hysbyswyd y sector yn llawn nad yw'r penderfyniadau cyllido a wnaed yn Lloegr yn cael eu hail-greu'n uniongyrchol yng Nghymru. O ganlyniad, nid yw'r sector (hyd y gwyddom) wedi bod yn pwyso ar bartneriaid Cwlwm na'r ALl i ofyn a fyddai gofal plant a ariannir yn adlewyrchu'r cynnig yn Lloegr. Mae hyn o bwys, gan fod rhai o bartneriaid Cwlwm yn rhannu cyfathrebiadau gyda sefydliadau yn Lloegr, ac fel y'i gwelwyd yn ystod y pandemig, mae lleoliadau sy'n agos at y ffin yn ymwybodol o'r gwahaniaethau polisi rhwng y cenhedloedd ac mae ganddynt dueddiad i ddewis pa bolisi sy'n well ganddynt ei ddilyn mewn sgyrsiau gyda sefydliadau ymbarél. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Dengys tystiolaeth o'r sector bod rhai rhieni yn dewis peidio danfon eu plant i ofal plant heblaw y'i hariannir yn llawn. Yn amlwg, mae hyn yn effeithio cynaladwyedd darpariaethau (problemau llif arian), gyda nifer o ddarpariaethau yn cysylltu â'u sefydliadau ymbarél i ofn cefnogaeth ariannol drwy grantiau argyfwng yn ôl disgresiwn y sefydliad.<br><br>Mae'r esgid yn gwasgu ar bawb o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Wyneba darpariaethau cylch dieflig o gostau cynyddol a gostyngiad yn incwm (wrth i rieni leihau ar eu defnydd o ofal plant, a gyda'r taliad £5 yr awr yn werth llai). Mae dylanwad Cwlwm ar ystyriaethau macroeconomaidd yn gyfyngedig, er gwnaed ymgais i rannu syniadau defnyddiol. Bwydodd partneriaid Cwlwm yr heriau hynny yn ôl i LIC, a gweithio gyda'r Llywodraeth i gefnogi cyngor defnyddiol. |
| | | Fel enghraifft, gweler adroddiad NDNA Cymru am ganfyddiadau'r holiadur diwethaf ar gynnydd mewn costau a'r effaith gaiff hwn ar feithrinfeydd preifat a gwirfoddol yng Nghymru. |
| | **2** | Mae angen i'r sector ddeall cyfrifoldeb datganoledig LIC dros ofal plant. Mae angen arweiniad cliriach a chyfathrebu effeithiol fel bod gan y sector ddealltwriaeth lawn o'r rolau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas â gofal plant. |
| **4.02** | | **Hysbyswyd lleoliadau o ffynonellau grantiau amrywiol, a'r gefnogaeth ariannol gall fod ar gael.** |
| **Gweithred** | **1** | Mae partneriaid Cwlwm yn rhagweithiol wrth geisio ffynonellau cyllid amrywiol i'r sefydliadau aelod, ac yn creu adnoddau gwybodaeth sy'n amlygu argaeledd grantiau cyfalaf neu refeniw amrywiol. Mae'r holl bartneriaid yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gyfleoedd cyllido/grantiau i'w haelodau drwy sianeli cyfathrebu a ble'n bosib, mae sefydliadau partneriaid yn mynychu cyfarfodydd paneli grantiau ar wahoddiad. |
| | **2** | Mae partneriaid Cwlwm hefyd wedi sicrhau grantiau neu roddion er mwyn iddynt fedru cefnogi aelodau yn uniongyrchol. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Gyda'r wybodaeth ddefnyddiol a hygyrch hon, anogir aelodau Cwlwm i geisio am grantiau, i feddwl am hyfywedd y busnes ac i fod yn angor i ddigwyddiadau cymunedol a diwylliannol. |
| | **2** | Mae grantiau neu roddion uniongyrchol i sefydliadau partner Cwlwm wedi lleihau'r gost i ddarparwyr neu roi mynediad at adnoddau/prosiectau o safon sy'n cefnogi eu hanghenion. Cafodd rhai o bartneriaid Cwlwm rhoddion gan y Sefydliad Moondance, a defnyddiwyd mewn amryw o ffyrdd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Mae cyfleoedd am grantiau cyfalaf ar gael o nifer o ffynonellau, er bod yr angen yn fwy amlwg nag erioed o'r blaen oherwydd chwyddiant cynyddol a'r argyfwng costau byw. Bu ailagor y gronfa 'Plant Mewn Angen', ond roedd yna feini prawf llym iawn wrth ddiffinio 'plant mewn angen', gyda darpariaethau o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg ddim hyd yn oed yn gymwys ar gyfer y nawdd. Addaswyd cronfa 'Pobl a Llefydd' y Loteri i gynnwys pwyslais ar yr argyfwng costau byw ac adferiad ôl-Covid, a gall wedi bod yn adnodd defnyddiol ar gyfer lleoliadau gofal plant, er bod y broses ymgeisio yn feichus. |
| | **2** | Wnaeth rhoddion y Sefydliad Moondance<br>• galluogi PACEY Cymru i roi cymhorthdal fyddai'n lleihau costau ffioedd aelodaeth am 2023-2024, a werthfawrogir yn fawr gan aelodau<br>• sicrhau gall CPCKC ddarparu llefydd newydd a grantiau cynaladwyedd, talu am grantiau i ariannu llefydd, gan alluogi plant sydd ei angen i elwa o fuddion chwarae a rhyngweithio cymdeithasol a thrwy ariannu aelodaeth, alluogi'r holl leoliadau gael mynediad at gefnogaeth i aelodau am ddim |
| **4.03** | | **Hysbysu/ymgynghori â lleoliadau mewn perthnasedd ag unrhyw weithgaredd yn gysylltiedig â diwygio'r diwrnod/blwyddyn ysgol.** |
| **Gweithred** | **1** | Ar ran partneriaid Cwlwm wnaeth CPCKC cwrdd ag arweinwyr LlC a darparu adborth ar y peilot. Cynigodd CPCKC gyfleoedd am brosiectau peilot pellach, gan gynnwys gofalwyr plant sefydledig fel darparwyr trydydd parti. Gwnaed cysylltiadau hefyd gydag Arweinydd Polisi LlC dros Ysgolion Bro/SHEP i gefnogi gwaith partner ymhellach rhwng addysg a gofal plant. |
| | **2** | Bydd partneriaid Cwlwm yn hyrwyddo'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol o fewn y sector unwaith ei fod ar gael. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Wrth ymgysylltu â'r sector ynghylch diwygio'r diwrnod a blwyddyn ysgol bydd yn bosib hel adborth fydd yn sicrhau bod llais ac anghenion y sector yn derbyn ystyriaeth. Rhoddwn bwyslais ar y cyfle potensial i leoliadau, a'r gwaith ar y cyd rhwng gofal plant ac ysgolion i gefnogi plant a theuluoedd. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1-2** | Mae yna gryn bryder o fewn y sector All Ysgol a gofalwyr plant bydd diwygio'r diwrnod ysgol yn effeithio eu gwasanaethau hwy yn negyddol; er enghraifft y dyfyniad isod gan Arolwg Cenedlaethol Clwb CPCKC:<br>*"Welsh Gov should consider very carefully the proposed extension of the school day and the huge impact this will have on existing after school clubs, not only from the squeeze it will put on already struggling provision but also from the child's point of view where they already attend out of school club and are able to access and enjoy the child-centred, child-led play provision at club with their friends".*<br>Croesawir trafodaethau neu'r cyfle i fod yn rhan o brosiectau peilot. |

| 4.04 | | Darperir cefnogaeth wedi'i theilwra i leoliadau drwy amryw o ddulliau - e-fwletin, newyddlenni, cymorthfeydd, digwyddiadau, ac ati. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Ynghyd â'n cyfathrebiadau rheolaidd mae partneriaid Cwlwm hefyd yn darparu ystod o webinarau, arweiniad, newyddlenni a chefnogaeth arall wedi'i theilwra. Enghreifftiau: Marketing Made Easy, ymgynghoriad y SGC, Ansawdd y Gofal, Paratoi at Arolygiad, ac ati. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Cadwyd aelodau'n gyfredol am ddeddfwriaeth/polisi ac ati. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Awgrymir tystiolaeth bod yna fwy o chwaeth am webinarau ar AGC/SGC/ deddfwriaeth na DPP arall, mwy na thebyg oherwydd pwysau amser. |
| **4.05** | | **Cefnogi datblygiad parhaus y tudalennau gwe Cefnogi Busnes.** |
| **Gweithred** | **1** | Yn achlysurol bydd partneriaid Cwlwm yn adolygu, yn diweddaru ac yn ehangu ar y tudalennau gwe Cefnogi Busnes i sicrhau eu bod yn ddilys ac yn parhau'n gyfredol. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae gan y sector gofal plant y mynediad orau posib at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a gallent fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Business Support Childcare and Playwork Providers \| Business Wales (gov.wales) |
| **4.06** | | **Cefnogi'r amcan o gynyddu'r nifer o wasanaethau Gofal Plant a Gwaith Chware sydd â strwythurau busnes cadarn mewn lle.** |
| **Gweithred** | **1** | Mae pob partner Cwlwm yn gweithio ag aelodau i ddarparu:<br>● cefnogaeth strategol a chyngor ymarferol ar greu a chynnal strwythurau busnes cadarn drwy ddulliau amrywiol gan gynnwys webinarau, dogfennau gwybodaeth a chefnogaeth ymarferol<br>● cefnogaeth wedi'i thargedu, drwy gydweithrediad â'r ALI, pan adnabuwyd anghenion penodol<br>● cefnogaeth ôl-weithredol a/neu adferol pan ddaw lleoliadau'n agored i niwed o ganlyniad i amgylchiadau amrywiol |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae'r holl SCE a lleoliadau elusennol anghofrestredig wedi derbyn cefnogaeth busnes, diweddariadau ar ofynion cyfreithiol cyflogaeth a phapur briffio yn rhannu gwerth statws SCE, yn atgoffa elusennau o gamau'r broses i ddiddymu os yw busnes yn cymryd drosodd. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Dychwelwyd ceisiadau i ddod yn SCE ddau leoliad cyfrwng Saesneg gan y Comisiwn Elusen oherwydd bod data ar goll neu'n anghyflawn, gyda'r awgrym y dylai'r lleoliadau defnyddio BCC i helpu gyda'r broses. Am i'r lleoliadau gweithio gyda BCC ac oherwydd dealltwriaeth BCC o'r broses a'r camau angenrheidiol i gydymffurfio, wnaeth y ddau leoliad gwblhau eu ceisiadau'n llwyddiannus. |
| | | Am enghreifftiau pellach o gefnogaeth, gweler 'Proses Tendro Dechrau'n Deg NDNA' a Straeon Llwyddiant CPCKC |



| | | |
|---|---|---|
| **4.07** | | **Gweithio gyda'r GGID i ddiweddaru a hyrwyddo'r llyfryn 'Dewis Gofal Plant' yn flynyddol, gan sicrhau y hyrwyddir gofal plant yn barhaus.** |
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• ffurfio grŵp Tasg & Gorffen gyda rhanddeiliaid amrywiol yn mynychu i drafod ailysgrifennu, dyluniad a chyfieithiad y llyfryn/poster<br>• mewn cydweithrediad ag AGC, gorffen y cynllun cyfathrebu a hyrwyddo'r llyfryn a'r poster yn eang o fewn y sector ac i rhanddeiliaid eraill |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Cwlwm fu'n gyfrifol am gydlynu a gyrru'r holl waith ymlaen er mwyn sicrhau bod y llyfryn newydd yn hawdd i'w defnyddio. Roedd fformat y cynllun cyfathrebu'n glir ac yn gryno, a wnaeth hynny sicrhau fod sefydliadau yn medru rhannu negeseuon sbesiffig a manwl ynghylch y llyfryn drwy sianeli cyfathrebu amrywiol. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Bydd hyrwyddiad parhaol y llyfryn yn sicrhau y cedwir ei fodolaeth ym mlaenau meddyliau pobl, gyda'r gobaith mai dyna fydd un o'r adnoddau cyntaf mae pobl yn ei droi at wrth chwilio am wybodaeth am ddewis gofal plant. |
| **4.08** | | **Cefnogi'r sector gofal plant, trwy weithio gyda/cefnogi Busnes Cymru ym mhob un o'i feysydd gwaith, gan gynnwys ymgysylltu efo rhanddeiliaid a chynrychioli'r sector.** |
| **Gweithred** | **1** | Gweithiodd partneriaid Cwlwm:<br>gyda Busnes Cymru (BC) i greu fideos pwrpasol i'r sector yn manylu'r pecynnau cymorth sydd ar gael gan bartneriaid i barhau i ddangos cefnogaeth drwy astudiaethau achos a thrwy rannu bwletinau BC gyda'r sector ehangach |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Trwy weithio gyda a chefnogi BC wrth ei waith, dangosodd partneriaid Cwlwm mewn amgylchedd esblygol sy'n newid yn gyson, fod y sector yn ymwybodol o'r holl gyngor, hyfforddiant a datblygiadau busnes sydd ar gael i hyrwyddo a datblygu eu busnesau. Parhaodd partneriaid Cwlwm i ddiweddaru'r astudiaethau achos ar dudalen gwe Busnes Cymru i adnewyddu'r wybodaeth wreiddiol a darparwyd. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Gweler y fideos a'r astudiaethau achos a darparwyr i BC. |

# Amcan 5:

## Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i barhau i ddarparu'r iaith Gymraeg o fewn lleoliadau, yn unol â'r Cwricwlwm newydd, Cymraeg 2050, a'r CSGA.

| 5.01 | | Cefnogir lleoliadau i symud ar hyd y continwwm iaith, e.e., mae lleoliadau sydd yn bennaf cyfrwng Saesneg yn gwneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg, ac mae lleoliadau sy'n defnyddio'r dull trochi yn codi'r safonau iaith sy'n berthnasol i'w lleoliad. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• gweithio gyda'r sector i hel gwybodaeth a chreu darlun cywir o statws ieithyddol lleoliadau a'u cynlluniau i ymestyn eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys awdit i adnabod y rhai nad oedden nhw'n gweithio tuag at y Cynnig Gweithredol.<br>• datblygu a lansio'r 'Addewid Cymraeg'<br>• datblygu adnoddau amrywiol i fodelu iaith a darparu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar iaith<br>• datblygu a chyflwyno gweithdy 'Cymraeg mewn Gofal' sy'n manylu ar bolisïau, strategaethau a mentrau LlC sy'n berthnasol i'r sector (BCC)<br>• creu Facebook preifat i gefnogi'r sawl sy'n defnyddio'r iaith (NDNA Cymru)<br>• rhoi cynlluniau Clebran a Camfa MM ar waith<br>• hyrwyddo cyrsiau Camau |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Trwy ddarparu cefnogaeth, hyfforddiant a chreu adnoddau amrywiol mae'r sector â'r gallu i symud ar draws y continwwm iaith mewn modd hyderus ac esmwyth. Er enghraifft, mae'r meithrinfeydd Saesneg sy'n rhan o 'Camfa', cwrs ar-lein MM sy'n cyflwyno pynciau fel Amser, Tywydd, y Tymhorau, Fy Niwrnod, Amser Chwarae act ati, yn caniatáu amser i staff o fewn y meithrinfeydd hynny ddatblygu hyder wrth siarad Cymraeg gyda'r plant ac ymhlith ei gilydd. |



| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r cynllun 'Addewid Cymraeg' wedi derbyn cymeradwyaeth gan AGC a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr Addewid Cymraeg yn darparu'r teclynnau angenrheidiol i leoliadau dangos AGC sut maent yn gweithio tuag at y Cynnig Gweithredol. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Er enghraifft, mae cynllun gwerthfawr MM, sef Clebran, yn darparu'r teclynnau i archwilio a dysgu'r iaith Gymraeg i staff o fewn meithrinfeydd Saesneg eu hiaith nad ydynt yn aelodau MM. Gall staff rhannu profiadau, dyfnhau eu dealltwriaeth o'r iaith ac adeiladu hyder wrth siarad Cymraeg. |
| **5.02** | | **Y gefnogaeth yn anelu i gynyddu'r nifer o leoliadau cyfrwng Cymraeg ar draws y sector.** |
| **Gweithred** | **1** | Gweithiodd partneriaid Cwlwm gyda'i gilydd i adnabod cyfleodd i weithio gyda'i gilydd i gynyddu'r nifer o leoliadau cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl ystod oedran, tra hefyd yn adnabod materion sy'n cyfyngu ar y nod hwn. Parhaodd gwaith gyda'r ALI i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan o ymestyniad Dechrau'n Deg. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Dengys yr archwiliad oedd â'r nod o gasglu gwybodaeth am barodrwydd lleoliadau i ehangu Dechrau'n Deg darlun llawn o sut mae'r holl ddarparwyr o fewn y lleoliad yn gweld yr ehangiad. Canlyniad hyn yw fydd ystod ehangach o leoliadau yn derbyn cefnogaeth i gynnig mynediad i'r iaith a diwylliant Cymraeg drwy gydol amser plentyn o fewn y lleoliad, ac nid yn ystod oriau Dechrau'n Deg yn unig. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Mae'n galonogol i weld twf yn y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y sector, fel y mae'r datblygiad o siaradwyr Cymraeg, ac mae hyn yn amlwg wrth i gynllun 'Camfa Croesi'r Bont' Mudiad Meithrin ennill momentwm drwy gefnogi 6 meithrinfa dydd ym Mlaenau Gwent, Abertawe, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. |
| **5.03** | | **Dehonglir data'r Cyfrifiad i oleuo strategaethau sy'n trin a thrafod y Gymraeg, megis Cymraeg 2050 a Chynllun y Gweithlu.** |
| **Gweithred** | **1** | Mynychodd MM sesiynau brifio ar ddata iaith Gymraeg y Cyfrifiad 2021. Mae wedi siarad â Gweinidogion LlC, swyddogion a phartneriaid i ddadansoddi'r data, ac i hysbysu strategaethau. Mae cyfarfodydd mewnol hefyd wedi trafod y data. Disgwyliwn iteriad pellach o'r data yn gweithio mewn partneriaeth ag ystadegwyr LlC. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Ar wahân i wneud datganiad cyhoeddus ynghylch y data, ychydig iawn sydd wedi digwydd yn nhermau effaith/allbwn wrth ystyried yr angen am ddadansoddiad pellach o'r data. Bydd MM yn parhau i drafod canfyddiadau gyda LlC, ALI ac eraill. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Nid oes yna dystiolaeth o'r sector ynghylch effaith data'r Cyfrifiad ar wahân i amlygiad o'r angen am fuddsoddiad pellach yn addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd data'r Cyfrifiad hefyd yn cyd-destunoli ymateb y sector i'r papur gwyn ar y Ddeddf Addysg Gymraeg (gyda'r ymgynghoriad yn cau ym mis Medi 2023). |

| | | |
|---|---|---|
| **5.04** | | **Parhad o'r model 'Cymraeg Gwaith' gyda rhagor o arloesi, e.e. newidiadau i'r model 'Camau' presennol mewn ymateb i'r adborth a derbyniwyd, ac ehangu ymhellach ar waith, e.e., gweithio gyda'r GDCG i gynnwys modiwl Camau ar Gwaith Chwarae.** |
| **Gweithred** | **1** | Wnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• weithio'n agos gyda'r GDCG a hyrwyddo'r holl gyrsiau yn eang o fewn y sector<br>• weithio gyda'r GDCG i ddatblygu'r cyrsiau Mynediad Gwaith Chwarae 1 a 2 a defnyddiwyd adnoddau a chyfleusterau ar-lein a thaflenni i arddangos y cyrsiau er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach.<br>• ddatblygu adnoddau i gyd-fynd gyda'r cyrsiau Mynediad Gwaith Chwarae 1 a 2<br>• hwyluso sesiynau galw mewn lle gall ymarferwyr ofyn cwestiynau oedd yn berthnasol i ymarfer Cymraeg<br>• barhau i ymwneud ag ymarferwyr i symud nhw drwy'r gwahanol lefelau dysgu |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | O ganlyniad i gefnogaeth ac anogaeth y cydlynwyr Iaith Gymraeg mae darparwyr yn teimlo'n fwy hyderus wrth symud ymlaen at y lefel nesaf.<br>Mae staff yn cynyddu mewn hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac mae nifer wedi nodi eu bod nhw'n defnyddio'r iaith adref hefyd. Mae staff yn fwy parod i gymryd rhan mewn cyrsiau ar-lein yn eu hamser eu hunain. Mae gan staff gwell dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg ac mae ganddyn nhw gwell mynediad i'r adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Gweler Adroddiad Blynyddol Camau ar ragor o wybodaeth.<br>Mae adnoddau'n hawdd eu cyrraedd, a gall y sector eu lawr lwytho oddi ar wefan Cwlwm a phorth y GDCG i gefnogi ymarfer: Camau Resources \| cwlwm |
| **5.05** | | **Cynnydd yn y nifer o'r gweithlu sy'n gwneud defnydd o'r cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' drwy'r GDCG. (Cyllid Iaith Gymraeg Cwlwm - £190,000 ychwanegol).** |
| **Gweithred** | **1** | Wnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• hyrwyddo holl gyrsiau Camau drwy newyddlenni, y cyfryngau cymdeithasol a mentrau ar-lein<br>• datblygu sesiynau hyrwyddo i ALI, cyflogwyr a staff, sy'n amlygu manteisio, hygyrchedd ac adnoddau<br>• parhau i hyrwyddo 'gair yr wythnos', adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael gan y cydlynwyr Iaith Gymraeg i hwyluso cynnydd dysgwyr<br>• rhannu astudiaethau achos dysgwyr yn amlygu'r profiadau ar y cyrsiau Camau |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Gwnaeth adolygiad prosiect Camau amlygu bod nifer o ddysgwyr wedi methu cwblhau'r cwrs. Ystyriodd partneriaid Cwlwm gwelliannau a chyniwyd cefnogaeth 1:1 i ddysgwyr unigol gan y cydlynwyr iaith Gymraeg, yn ychwanegol i ddatblygu 'Gair yr Wythnos Camau'. |
| | | Gafodd darparwyr ac ALL mewnwelediad i gyrsiau Camau a'r manteision a darparwyd. |
| | | Er mai rhaglen ar-lein hunan-astudio yw Camau, wnaeth y gefnogaeth a mentora gan y cydlynwyr iaith Gymraeg sicrhau fod dysgwyr â'r gefnogaeth a'r anogaeth drwy gydol eu siwrne dysgu iaith Gymraeg, gan helpu dilyniant. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Nododd y GDCG eu bod nhw wedi'u plesio gyda'r nifer o ddysgwyr yn cofrestru ar gyfer cyrsiau, a hefyd y gyfradd o bobl sy'n llwyddo. Diolchwyd i bartneriaid Cwlwm am eu gwaith. Gweler Adroddiad Blynyddol Camau ar ragor o wybodaeth. |
| | | Gweler Adroddiad Blynyddol Camau ar ragor o wybodaeth.<br>Mae adnoddau'n hawdd eu cyrraedd, a gall y sector eu lawr lwytho oddi ar wefan Cwlwm a phorth y GDCG i gefnogi ymarfer: Camau Resources \| cwlwm |



| | | |
|---|---|---|
| **5.06** | | **Penodi Swyddogion Datblygu penodedig i weithio gyda lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae i ymgorffori'r Gymraeg:**<br>• **hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn pob lleoliad gofal plant a gwaith chwarae**<br>• **cefnogi lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae er mwyn cynyddu cyfleoedd i staff presennol wella eu sgiliau Cymraeg**<br>• **cydlynu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg penodedig ar gyfer staff presennol, gan ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus ar draws ystod o sgiliau gan gynnwys cymorth cyntaf, datblygiad plant a mwy**<br>• **cefnogi lleoliadau sydd am newid yr iaith maent yn gweithredu ynddi i ddechrau ar y broses trawsnewid, gan gynnwys diwygio dogfennau polisi a pharatoi at arolygiadau yn yr iaith weithredol newydd.**<br>• **cefnogi lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg anghofrestredig i gofrestru** |
| **Gweithred** | **1** | Rhai enghreifftiau o fentrau partneriaid Cwlwm:<br>• recriwtiodd PACEY Cymru aelod ychwanegol o staff i gefnogi gwaith datblygu'r Gymraeg a datblygodd wasanaeth arbenigol i oruchwylio rhwystrau i aelodau Cymraeg eu hiaith mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth gan gynnwys cael polisïau a gweithdrefnau dwyieithog<br>• recriwtiodd MM Rheolwr Cynlluniau Dysgu Cymraeg i gefnogi a goruchwylio cynlluniau fel Clwb Cwtsh a Camau, yn ogystal â nodi anghenion hyfforddi cyfrwng Cymraeg staff<br>• recriwtiodd NDNA Cymru Reolwr Datblygu'r Gymraeg i arwain ar y gwaith Cymraeg, gan gynnwys cefnogaeth i aelodau gyda'r cynnig gweithredol a gweithio gyda chynllun MMs Croesi'r Bont i nodi a chefnogi lleoliadau<br>• recriwtiodd CPCKC 2 Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant Cymraeg ychwanegol i gefnogi prosiectau Camau a CYMell<br>• ailstrwythurodd EYW swyddogion y Gymraeg yn fewnol, a recriwtio swyddog ychwanegol i ddarparu mwy o gymorth i ddysgwyr Camau ac i oruchwylio'r gwaith cydweithredol gyda'r Mudiad ar ddatblygu lleoliadau Cylchoedd chwarae ar hyd y continwwm iaith tuag at ymarfer ymdrochol Cymraeg |
| | **2** | Gweler hefyd 1.02, 1.05 am yr holl enghreifftiau eraill o gydweithio a chymorth a ddarperir i'r sector. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1-2** | Bydd y cynlluniau a'r gefnogaeth a gynigwyd gan bartneriaid Cwlwm yn sicrhau cynnydd yn y Gymraeg a defnyddir gan ymarferwyr o fewn eu darpariaethau. |
| | | Gwnaeth nawdd ychwanegol creu cyfleoedd i gryfhau gwaith polisi partneriaid Cwlwm; rhoi cefnogaeth i ymarfer tu hwnt i Camau o fewn lleoliad; a gweithio'n rhagweithiol gyda'r ALI i gwrdd â diffygion a adnabyddir o fewn dogfennau CSGA. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1-2** | Gwnaeth cynlluniau a mentrau niferus partneriaid Cwlwm sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Fel ychwanegiad, bydd yr adnoddau amrywiol a darparwyd gan bartneriaid Cwlwm yn helpu ymarferwyr i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y cynlluniau a mentrau hynny hefyd yn darparu cyfleoedd i ymarferwyr ddysgu mwy o Gymraeg a datblygu eu sgiliau wrth ddefnyddio'r iaith. |

| 5.07 | | Dros gyfnod o 3 blwyddyn ariannol, cefnogi 40 o leoliadau ychwanegol drwy gynllun Croesi'r Bont  Mudiad Meithrin i gyflwyno/gwella sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu presennol. |
|---|---|---|
| **Gweithred** | **1** | Mewn ymateb i ymestyniad cynllun Croesi'r Bont, roedd MM yn medru:<br>• derbyn Cylchoedd newydd i'r cynllun. Cynyddwyd oriau staff ag ychwanegwyd staff newydd i'r cynllun mewn ardaloedd targed er mwyn caniatáu adeiladu capasiti<br>• darparu cyflwyniadau ar y cynllun i ddarpariaethau penodol a chynnal gwaith pontio gyda'r ysgolion cynradd targed<br>• darparu swyddogion Croesi'r Bont i ddarparu cefnogaeth barhaus a 4 llyfr stori syml a datblygwyd i adlewyrchu patrymau iaith Croesi'r Bont<br>• gweithio gyda NDNA Cymru i ddarparu cynllun Camfa o fewn meithrinfeydd |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae Cylchoedd niferus wedi derbyn cefnogaeth a hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol i helpu staff a phlant i gael eu trochi yn yr iaith Gymraeg er mwyn eu helpu i ddod yn ddwyieithog. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Y cyfanswm o gylchoedd wedi ei gofrestru ar y cynllun ar ddiwedd Mawrth 2023 oedd 141. |



# Amcan 6:

## Gweithio'n strategol a rhannu gwybodaeth gydag unigolion, sefydliadau a darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i gefnogi darpariaeth y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a gweithredu egwyddorion gwrth-hiliol o fewn lleoliadau ac ymarfer.

| | | |
|---|---|---|
| **6.01** | | **Mae partneriaid Cwlwm yn cefnogi Llywodraeth Cymru i lunio'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol lle bo'n berthnasol i'r sector gofal plant a gwaith chwarae.** |
| **Gweithred** | **1** | Roedd partneriaid Cwlwm yn rhan o'r gwaith cefnogi LIC i lunio'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol mewn perthnasedd â'r sector gofal plant a gwaith chwarae drwy fynychu a chefnogi'r grŵp rhanddeiliaid a'r is-grwpiau. Wnaeth partneriaid Cwlwm hyrwyddo ceisiadau i weithwyr gofal plant a gwaith chwarae ddod yn fentoriaid cymunedol gofal plant a gwaith chwarae LIC. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae ymwneud Cwlwm â'r cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn golygu bydd gan y sector:<br>• gwell dealltwriaeth o sut i ymdrin â chwestiynau am hiliaeth yn effeithiol<br>• y gallu i symud o ymarfer an-hiliol i fod yn wrth-hiliol<br>• y gallu i gyflwyno syniadau cynllunio<br>• y gallu i gyfrannu i'r cynllun gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drwy ddatblygiad adnoddau a chefnogaeth |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Cefnogwyd prosiect mentor cymunedol, a golygai hyrwyddo'r fenter drwy ddiweddariadau i aelodau Cwlwm. Nod y prosiect oedd hel gwybodaeth am fwlio hilio ac ymarferion o fewn y gweithlu gofal plant, a sut i ddelio â hiliaeth ymhlith plant, staff a rhieni. O'r persbectif gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg, rhannodd Mudiad Meithrin ei adroddiad ar brofiadau unigolion Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig gyda phartneriaid a LIC. |
| **6.02** | | **Mae arweinwyr Cwlwm yn dangos arweinyddiaeth trwy weithredu egwyddorion gwrth-hiliol, e.e., trwy fynychu hyfforddiant gwrth-hiliaeth.** |
| **Gweithred** | **1** | Gwnaeth partneriaid Cwlwm:<br>• sicrhau y caiff gwrth-hiliaeth ei weithredu yn rhan o'r gwaith a bod systemau a gweithdrefnau yn cefnogi dull gwrth-hiliol<br>• adolygu polisïau sefydliadol gan gynnwys strategaethau amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant, yn ogystal â diweddaru ymddiriedolwyr ar gynlluniau gweithredu gwrth-hiliol a gwerthuso data ar blant sy'n mynychu darpariaethau<br>• sicrhau bod staff sefydliadol tu hwnt i'r uwch dîm a'r ymddiriedolwyr â mynediad at hyfforddiant DARPL |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae partneriaid Cwlwm yn ymrwymo i weithredu egwyddorion ac ymarfer gwrth-hiliol o fewn y sector, ac felly'n adnabod yr angen i fod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â hiliaeth. Mae Cwlwm yn ymrwymo i greu a chynnal amgylchedd gwrth-hiliol. Bydd yr hyfforddiant a gynigwyd i staff ac ymddiriedolwyr yn eu harfogi gyda'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael â hiliaeth. Bydd gwerthusiad y data cyfredol yn darparu gwell dealltwriaeth i ni o'r sefyllfa bresennol ynghylch y nifer o blant o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn mynychu darpariaethau, yn ychwanegol i adnabod meysydd i wella er mwyn creu amgylchedd mwy amrywiol. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Darparodd staff adborth ar ba mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant DARPL ac ers hynny maen nhw wedi defnyddio'r wybodaeth i gryfhau ac adolygu'r ymagwedd yn rhan o ffrydiau gwaith mewnol h.y. wrth adolygu polisïau sefydliadol. Mae data cychwynnol yn awgrymu cynnydd syfrdanol yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifol Ethnic (o ddata Cyfrifiad 2011 i 2021). Mae angen dadbacio'r data, ond gall hyn awgrymu bod cyfradd uwch o blant o gymunedau Du, Asiaidd neu Leiafrifol Ethnic yn mynychu darpariaethau cyfrwng Cymraeg. |
| **6.03** | | **Datblygu adnoddau hyfforddiant i gynyddu dealltwriaeth o egwyddorion gwrth-hiliol a'u gweithredu fel rhan o arfer da.** |
| **Gweithred** | **1** | Dyma enghreifftiau o fentrau unigol gan bartneriaid Cwlwm:<br>• datblygodd MM adnoddau amrywiol megis 'Plantos Cwm Perthyn', Our Wales (Cymru Ni)<br>• darparodd CPCKC sesiynau ar 'Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol i Leoliadau'<br>• datblygwyd a hyrwyddwyd 'Canllaw ar Ymarfer Da – Taclo Hiliaeth' gan NDNA Cymru<br>• cynhaliwyd sesiynau ar gwrth-hiliaeth ac ymwybyddiaeth diwylliannol gyda Laura Henry-Allain, Liz Pemberton a Rachel Clarke, a threfnwyd gan BCC |
| | **2** | Mae partneriaid Cwlwm wedi:<br>• gweithio'n agos â LIC a DARPL i drefnu lansiad sector o'r adnoddau hyfforddi ar 11.05.23<br>• dangos eu hymrwymiad i wrth-hiliaeth drwy weithio â DARPL i greu ystod adnoddau ar gyfer llyfrgell DARPL<br>• nynychu cyfarfodydd gwrth-hiliaeth thematig gyda Chantelle Haughton a Rebecca Johnson ac ymgymryd â thasgau penodol, e.e. ymrwymo i ymarfer a hyfforddiant gwrth-hiliol<br>• parhau i hyrwyddo a mynychu sesiynau hyfforddiant gwrth-hiliaeth DARPL a darparwyd gan Rachel Clarke, Liz Pemberton, Gemma Maiorano ac eraill |
| **Effaith/ Allbwn** | **1-2** | Bydd datblygiad deunyddiau hyfforddi a mynychu'r hyfforddiant yn:<br>• darparu trosolwg o egwyddorion sylfaenol gwrth-hiliaeth<br>• arfogi staff â'r hyn sydd ei angen i adnabod a mynd i'r afael â hiliaeth yn y gweithle<br>• darparu adnoddau i helpu staff ymestyn eu dealltwriaeth o wrth-hiliaeth |

| | | |
|---|---|---|
| **Tystiolaeth Sector** | **1-2** | Yn ystod 2022-2023 wnaeth cynllun mentora BCC cyrraedd sesiwn 6 o 12. Mae 10 o'r lleoliadau a fynychodd yn paratoi astudiaethau achos i rannu ym mis Medi bydd yn dystiolaeth o ymateb unigol eu sefydliadau i'r hyfforddiant a darparwyd. Trefnwyd hyfforddiant DARPL ar gyfer Uwch Arweinwyr ac Ymarferwyr ym mis Ebrill 2023, yn dilyn diweddariad ac adolygiad y deunyddiau hyfforddi a datblygwyd i ysgolion. Cofrestrodd 18 person i fynychu hyfforddiant ar lefel ymarferydd ym mis Ebrill.<br><br>Nod Cwlwm yw bod yr holl adnoddau hyfforddiant/sesiynau a datblygwyd yn creu sector sy'n rhagweithiol am fod yn wrth-hiliol, yn gynhwysol ac yn barchus. |
| **6.04** | | **Cefnogi datblygiad gweithlu amrywiol a phrosesau recriwtio cynhwysol.** |
| **Gweithred** | **1** | Mae partneriaid Cwlwm yn:<br>• parhau i adolygu a gweithredu egwyddorion ymarfer da yn eu prosesau recriwtio'n fewnol<br>• cynnig cyrsiau hyfforddi amrywiol sy'n cynnwys cwrs Anabledd, Cydraddoldeb a Hyfforddiant, cwrs datblygiad proffesiynol ar wrth-hiliaeth, a chwrs ar hunaniaeth rhywedd<br>• parhau i adolygu deunyddiau hyrwyddo a chyflwyniadau (e.e. sesiynau brifio i ofalwyr plant a nanis) i sicrhau y defnyddir terminoleg a delweddau mwy cynhwysol |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae adolygu ein gweithdrefnau recriwtio yn caniatáu i bartneriaid Cwlwm sicrhau y cefnogir a datblygu'r gweithlu amrywiol, fel y gellir dod ag ystod o sgiliau a chefndiroedd i'r gweithle. |
| | | Mae'r sesiynau hyfforddi a gynigir gan bartneriaid Cwlwm yn sicrhau bod y gweithlu gofal plant yn wybodus ac yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am reoleiddiadau ac ymarfer gorau, sy'n sicrhau proses recriwtio cynhwysol. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Awgrymir tystiolaeth fod angen gwaith pellach yn y maes hwn, a siomedig yw'r datblygiad gweithlu mwy amrywiol. Mae partneriaid Cwlwm yn parhau i gymryd cyngor gan arbenigwyr AD a DARPL i wella'r maes gwaith hwn, fel gall prosesau cael eu datblygu'n fewnol. |





| | | |
|---|---|---|
| **6.05** | | **Mae pob plentyn a pherson ifanc yn parhau i dderbyn croeso ym mhob un lleoliad, gydag agwedd sensitif at wahaniaeth ac amrywiaeth.** |
| **Gweithred** | **1** | Yn yr ymgynghoriad SGC cododd partneriaid Cwlwm pryderon ynghylch a ydi'r safonau presennol yn rhoi digon o sylw i faterion hil a hiliaeth a chyfle cyfartal. |
| | **2** | Mynychodd DARPL digwyddiad i aelodau NDNA a darparu sesiwn i ymarferwyr gan ddefnyddio'r cyhoeddiad 'Colour of us'. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Yn yr ymatebion cafwyd datganiadau bod hwn yn faes a dull cymhleth sy'n anodd ei gael yn iawn. Datganodd partneriaid Cwlwm y dylai hyn gael ei blethu drwy'r SGC, gan ei fod ar hyn o bryd yn ymwneud â chyfleoedd cyfartal yn hytrach na rhywbeth sy'n sefyll ar ei ben ei hun.  Nododd yr holl bartneriaid, gan fod y ffocws ar Gymru wrth-hiliol, y gellid cynnwys cyfeiriadau pellach at y gwaith a'r nod yng Nghymru yn y wybodaeth sy'n agoriad i bolisi'r llywodraeth. |
| | **2** | Rhoddodd y sesiwn gwybodaeth ymarferol ar sut i ddefnyddio'r adnodd i helpu plant i ddeall a dathlu gwahaniaethau. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Cawsom dystiolaeth o werthusiadau'r digwyddiadau ymgynghori ar y SGC fod ymarferwyr wedi canfod y sesiynau'n addysgiadol ac yn gefnogol o'u hymarfer. |
| **6.06** | | **Datblygu deunyddiau dysgu i gefnogi dealltwriaeth a dathliad o ddiwylliannau amrywiol.** |
| **Gweithred** | **1** | Mae partneriaid Cwlwm yn hyrwyddo ystod o adnoddau yn ystod gwyliau crefyddol i ddathlu gwyliau crefyddol. |
| **Effaith/ Allbwn** | **1** | Mae'r adnoddau yn galluogi darpariaethau i ddeall a dathlu diwylliannau a gwyliau amrywiol. |
| **Tystiolaeth Sector** | **1** | Dengys data fod darpariaethau niferus yn lawr lwytho ac yn gwneud cais am y deunyddiau dysgu, sy'n galonogol gan fod partneriaid Cwlwm yn ceisio cefnogi'r sector i ddeall a dathlu diwylliannau amrywiol. |

## Refeniw ychwanegol a grantiau cyfalaf bach (£1,000,000): Cefnogi'r Sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae, o ran adferiad o effaith Covid-19 a chynaliadwyedd parhaus ac fel rhan o 'Raglen Lywodraethu 2021 - 2026' Llywodraeth Cymru

Gwnaeth y cyllid refeniw a derbyniwyd galluogi partneriaid Cwlwm unigol i wneud y canlynol:

### Mudiad Meithrin

- **Cyllid Grant Bach:** Darparu nawdd grant bach i gyfrannu at gynaladwyedd y sector yng Nghymru. Wnaeth y cyllid grant bach blaenoriaethu lleoliadau oedd angen cyllid cyfyngedig unai i gynyddu rheolaeth gadarn lleoliad ac felly cyfyngu'r peryg o gau'r lleoliad; neu ehangu ymarferion gweithredol diogel neu i uwchraddio adnoddau cwricwlaidd megis eitemau cyfalaf bach ar gyfer chwarae y tu allan. Golygai'r 80k ychwanegol bod 38 cylchoedd bregus wedi derbyn cyfanswm o £2926.81 ar ddiwedd Mawrth '23 (ychwanegwyd y nawdd hyn at gronfa oedd yn bodoli eisoes.)
- **Buddsoddi mewn systemau TG:** Uwchraddio ein systemau TG i gadw at y safonau ymarfer gorau Cyber Essentials. Rhoddwyd nawdd i amnewid system oedd wedi heneiddio, ac i sicrhau cydnawsedd gyda theclynnau Microsoft yn y dyfodol.
- **Cefnogaeth cwricwlwm:** Pryniant 10 adnodd blynyddoedd cynnar 'Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb' ar bapur (Teach Health 4 Kids)
- **Cefnogi'r adnodd staffio** sydd ei angen i alluogi gwaith i gael ei wneud yn unol ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol i gyd-greu / gweithio ar y cyd ar bolisi ac ymarfer gorau ar draws y sector: Darparu codiad cyflog i'r staff.





# Blynyddoedd Cynnar Cymru

- **Cynnig aelodaeth am ddim:** Dynodi nawdd fel nad oedd yn rhaid i'r un aelod dalu am aelodaeth.
- **Datblygu a hyfforddi pobl:** Dwyn ymlaen cynlluniau i gynyddu capasiti hyfforddiant a chefnogaeth DPP i'r sector, gan gynnwys blaenoriaethu Diogelu (wedi cynllunio i gynnig 5 x Categori A, 5 x Categori B, 5 x Categori C; fodd bynnag yn dilyn cyhoeddiad yr atodiad SGC mae Categori C yn cael ei werthuso i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn llwyr), Cefnogi dysgu'r Cwricwlwm i Gymru (3 x sesiynau 60 munud o hyd - gyda lleoliad yn gwneud cyflwyniad ac yn hwyluso sesiwn holi ac ateb), a hyrwyddo llesiant a rheolaeth emosiynol ddeallusol i gynyddu gwybodaeth y sector a hyrwyddo cadw'r gweithlu (1 x sesiwn o 3 gweithdy hyfforddi ar-lein).
- **Sicrhau Llywodraethant effeithiol a statws SCE:** Buddsoddi mewn polisïau a chefnogaeth i sicrhau bod lleoliadau yng Nghymru â statws SCE lle'n bosib, ac yn cofrestru ag AGC i hyrwyddo'r amddiffyniadau mwyaf cadarn ar gyfer byrddau gwirfoddol a phlant.



Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

- **Cefnogi costau staff i ehangu cefnogaeth busnes**: Parhau i ariannu staff sy'n medru cefnogi'r sector gyda chyngor, mynediad i nawdd grant, hyfforddiant a gwybodaeth i wella safon gofal plant yn y sector.
- **Cyllid Grant Bach:** Darparu nawdd grant bach i gyfrannu at gynaladwyedd y sector yng Nghymru. Wnaeth y cyllid grant bach blaenoriaethu lleoliadau oedd angen cyllid cyfyngedig unai i gynyddu rheolaeth gadarn lleoliad ac felly cyfyngu'r peryg o gau'r lleoliad; neu ehangu ymarferion gweithredol diogel. (Darparwyd 37 grant yn amrywio o £200 - £1000, yn ddibynnol ar y meini prawf a math o leoliad.)
- **Buddsoddi mewn systemau TG:** Uwchraddio ein systemau TG i gadw at y safonau ymarfer gorau Cyber Essentials. Rhoddwyd nawdd i amnewid system oedd wedi heneiddio, ac i sicrhau cydnawsedd gyda theclynnau Microsoft yn y dyfodol.
- **Buddsoddi yn nysg staff i leihau dibyniaeth ar systemau gan drydydd parti:** Buddsoddi yn sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i ddarparu rhai prosesau AD a Chyflogres yn fewnol, lleihau costau ac o bosib gweithio tuag at gefnogi'r sector gyda'r gwasanaethau busnes hanfodol hynny.





# NDNA Cymru

NDNA
National Day Nurseries Association
*Brighter thinking for early years

- **Cefnogi cynaladwyedd y sector**, gan ddarparu cefnogaeth estynedig i fynd i'r afael â'r heriau mwy cymhleth a wynebir gan y sector.
- **Gwelliannau pellach i'r seilwaith TG** i gynnwys adolygiadau ac ehangiadau i RPC a'r gwefan er mwyn gwella profiad defnyddwyr mewnol ac allanol.
- **Aelodaeth am ddim (i aelodau newydd a phresennol)** i gefnogi cynaladwyedd yn ystod y cynnydd costau byw i sicrhau gall y sector gael mynediad at gyfathrebiadau a chefnogaeth gyfredol.
- **Costau cyfieithu** i ddarparu adnoddau dwyieithog, gan gefnogi gwaith Cymraeg 2025.
- **Ehangu'r portffolio hyfforddiant ar-lein** i ddarparu rhagor o gyfleoedd DPP i leoliadau yng Nghymru.
- **Buddsoddi yn offer TG** a Microsoft 365 i gefnogi'r symudiad tuag at weithio o gartref yn barhaol yng Nghymru
- Datblygu fideo **'Make a difference that lasts a lifetime' yn rhan o ymgyrch 'y Pum mlynedd gyntaf' NDNA.** Hynny er mwyn hyrwyddo ac ysgogi canfyddiadau cadarnhaol o waith yn y blynyddoedd cynnar, annog staff presennol i aros a gwneud cynnydd ac i gefnogi recriwtio rhagor o bobl i yrfa yn y blynyddoedd cynnar.
- **Ymchwil** gyda'r sector er mwyn deall pa gefnogaeth sydd ei hangen ar staff ac ymarferwyr i ddatblygu, gwella ac olrhain eu datblygiad proffesiynol, cymwysterau a sgiliau.
- **Darparu adnoddau i'r sector** i gefnogi'r gweithrediad ac ymrwymiadau a wnaed o fewn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.

# Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

- **Cefnogi costau cyflogau craidd a gweithgareddau craidd**
- **Cefnogi gweithrediad a swyddogaeth cyllid** y sefydliad. Mae staff gweinyddol a chyllid yn hanfodol ac yn cefnogi anghenion y sefydliad cyfan trwy ddarparu prosesau gweinyddol effeithiol fel ein bod yn cynnal gofynion cytundebol ac yn goruchwylio, monitro, mesur llwyddiant ac adrodd.
- **Cefnogi'r swyddogaeth cyfieithu a marchnata** sydd wedi ein galluogi i gyflawni'r Cynnig Cymraeg a darparu cynnig sy'n gwbl ddwyieithog i'n haelodau, dysgwyr a staff. Mae ein Swyddog Marchnata a Chyfathrebu, sydd ar hyn o bryd yn cael ei dalu o'n cronfeydd wrth gefn, yn darparu cynnwys diddorol a pherthnasol i hyrwyddo ein gwaith craidd a phrosiect fel ei gilydd, gan ein caniatáu i barhau i: hyrwyddo gwaith chwarae fel proffesiwn; hyrwyddo hyfforddiant/ cyfleoedd i gymhwyso, e.e. mewn gwaith chwarae, dysgu'r Gymraeg, gwrth-hiliaeth; codi proffil gofal plant a chwarae cofrestredig; cyfleoedd ariannu; hyrwyddo'r gefnogaeth cynigwn i'r sector. Mae'r gwaith a wnaed gan ein timau craidd yn galluogi ein staff gweithredol i gefnogi'r sector Gofal Plant All Ysgol yn llawn.
- **Cwblhau'r gwaith i uwchraddio mannau cyfarfod yn swyddfeydd rhanbarthol** efo gallu digidol, gan alluogi staff i gwrdd â nod y Llywodraeth bod 30% o'r gweithlu yn medru parhau i weithio o adref, gan alluogi'r sawl o fewn y swyddfa'r preifatrwydd i gwrdd ag eraill ar-lein. Mae'n opsiwn amgen cynaliadwy ac amgylcheddol cadarn sy'n lleihau'r gost o redeg dyfeisiau trydanol niferus.
- **Cefnogi ysgrifennu'r cymwysterau Gwaith Chwarae** i gwrdd ag anghenion y sector yng Nghymru a'r fframwaith cymwysterau.
- **Cefnogi'r holl weithwyr chwarae fel dysgwyr sydd angen mwy o gefnogaeth ddwys** i gwblhau cymwysterau Gwaith Chwarae yn dilyn effeithiau negyddol Covid-19 a'r argyfwng costau byw presennol (darperir cefnogaeth a gwybodaeth i bob dysgwr, gyda chefnogaeth ddwys yn cael eu darparu i 15 o ddysgwr tu allan i'r cymhwyster).





## PACEY Cymru

- **Cefnogi lleoliadau drwy ariannu aelodaeth** fel bod aelodau'n medru cael mynediad at gyngor a chefnogaeth ansawdd uchel a thrwy wneud hynny, cefnogi costau ariannol darparwyr a'u cynaladwyedd.
- **Galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu ar adnoddau a chyfathrebiadau** i'r sector gofal plant i gwrdd â'n gofynion o dan y Safonau Iaith Gymraeg ac i sicrhau mynediad teg at adnoddau a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg a Saesneg.
- **Cynyddu capasiti staff i gwrdd ag anghenion y sector gofal plant** mewn ymateb i'r heriau yn ymwneud â thwf yn y gwaith.
- **Cyfraniad buddsoddiad y systemau ac offer PACEY** sy'n benodol i Gymru (gan gynnwys TG, AD, CRM, gwefan a chyllid).
- **Ymrwymiadau costau craidd** mewn perthnasedd â chostau i ddarparu'r uchod yn 22-23 nad yw'n cael ei dyblygu gan gyllid arall a chaiff ei gronni erbyn diwedd Mawrth 23.

Hoffai partneriaid 'Cwlwm' ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth, eu cydweithrediad a'u cyngor yn ystod blwyddyn hynod o anodd gan nodi mai gweithio mewn partneriaeth sy'n arwain at y canlyniadau gorau posibl i blant a'u teuluoedd (drwy'r sector).

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Mudiad Meithrin

NDNA

PACEY

Cwlwm

Early Years Wales



cwlwm